PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

85c | Rhif 480 | Mehefin 2025



Cyrtiau Tennis t.11



Caryl yn derbyn gwobr t.15



Llwyddiant i Miri t.15

## Priodasau



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mel ac Aaron Stephens ar eu priodas yng Nghyprus ar 14 Mai.



Llongyfarchiadau i Gemma Pugh a Thomas Drakeley ar eu priodas ar 24 Mai yn Eglwys Llangorwen.



Priodas Hanna Watkin, Blaenwaun, Y Borth a Mark Evans o Aberystwyth a briodwyd yn Eglwys Santes Fair Aberystwyth ddiwedd mis Mai. Llongyfarchiadau mawr a phon dymuniad da i'r ddau.

## Pen blwydd Priodas

Llongyfarchiadau mawr i Dai Alun a Jane Maria Jones (gynt o Rhydtir Isaf) a fydd yn dathlu eu Pen blwydd Priodas Deimwnt ar y 10fed o Orffennaf. Daw'r cyfarchion gyda chariad mawr oddi wrth Glesni a'r teulu i gyd.



# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, 38 Heol Alun, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3BB
Ebost: ionadavies752@btinternet.
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 07910 720422
hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST – Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296



CYMRAEG
Ariennir y Tincer yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.


# dyddiadur

**Rhifyn Medi: Dyddiad cau** Medi 5; **Dyddiad cyhoeddi** Medi 17

**MEHEFIN**

21 Dydd Sadwrn Taith flynyddol Sir Benfro Hedd Ladd Lewis

22 Dydd Sul Helfa Drysor Ceir Cylch Meithrin Rhydypennau am 11.00 Cyfarfod yn Ysgol Rhydypennau. £10 y car

26 Nos Iau Garddwest Ysgol Rhydypennau o 5:00 yp tan 7:00yh. Croeso mawr i bawb!

27-29 Nosweithiau Gwener – Sul Hwyl a Blodau o 2.00 tan 4.00
Cynhelir gweithgaredd crefft i'r plant ar y diwrnodau yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor

28 Pnawn Sadwrn Te hufen a mefus Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch o 3.00 – 5.00. Llywydd y prynhawn fydd Mrs Meinir Davies, Ponterwyd. Mi fydd stondin cynnyrch cartref a raffl ac arddangosfa o fywyd yr Eglwys dros y pum mlynedd diwethaf.

28 Pnawn Sadwrn Cyhoeddi Eisteddfod Talaith a Chadair Powys Bro Ddyfi 2026 ym Machynlleth – gorymdaith yr Orsedd am 1.30; Seremoni Gyhoeddi wrth Gerrig yr Orsedd, Gerddi'r Plas, Machynlleth i ddechrau am 2.00

**GORFFENNAF**

3 Nos Iau 3 Cyngerdd dathlu Côr ABC yn 30 oed, Eglwys y Drindod, Aberystwyth, am 7.30. Dim tâl mynediad – Croeso cynnes i bawb.

4 Nos Wener Datganiad ar yr Organ gan David Evans, Bow Street yng Nghapel y Garn am 7.00. Mynediad am ddim. Casgliad tuag at Apêl Manipur.

5 Dydd Sadwrn Diwrnod Hwyl yr Haf ar Gae Chwarae Pen-bont SY23 3EZ o 2.00 ymlaen

15 Nos Fawrth Trip / Ymweliad Gardd - i'w drefnu Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r cylch yn Neuadd Llanfarian am 7.30

17 Nos Iau Talwrn y Beirdd yn Neuadd Gymunedol Waunfawr, Aberystwyth

18 Ysgolion Ceredigion yn cau am wyliau'r haf.

**AWST**

2 Dydd Sadwrn. Sioe Capel Bangor a'r Cylch yng nghaeau Maesbangor. i ddechrau am 9. Dewch yn llu.

16 Dydd Sadwrn Sioe Arddwriaethol Penrhyn-coch yn Neuadd y Penrhyn

23 Bore Sadwrn Bore coffi / te a chacen Gŵyl y banc yn Neuadd Eglwys St. Ioan, Penrhyn-coch o 10.00-11.30yb

**MEDI**

1 Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn agor ar ôl gwyliau'r haf

2 Nos Fawrth Noswaith 'Disgiau Ynys Anial' yng nghwmni ein cyflwynydd Mr Ioan Guile a gwestai Dorrien Davies, Esgob Tŷddewi ag eraill yn Neuadd Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch am 7.00. Noson ddwyieithog.

6 Dydd Sadwrn Sioe Rhydypennau

8 Nos Lun Cyfarfod blynyddol y Tincer yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.00

12 Nos Wener Rhys Meirion a ffrindiau - Côr y Brythoniaid, Elen Meirion, Barry Powell & Efan Williams, Elin Pavli-Hinde, Menna Rhys yng Nghanolfan y Celfyddydau am 8.00

14 Dydd Sul Aelodau o Dafarn y Druid yn gwneud Naid Awyr at elusen HAHAV.

17 Nos Fercher Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yng nghwmni Delwyn Sion – yn Horeb am 7.30

## Cyfeillion Y Tincer

Dyma enillwyr Cyfeillion y Tincer fis Mai 2025:

**£25** (Rhif 198) Y Parchg Wyn Morris, Berwynfa, Penrhyn-coch
**£15** (Rhif 32) Huw Meirion Edwards, Banc yr Eithin, Llandre.
**£10** (Rhif 240) Teulu Hughes, Swyn y Fro, Cefn Llan

Cofiwch os ydych yn aelod o'r Cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r Trefnydd. Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan, 01970 880228 bethanbebb162@gmail.com

## Yn eisiau – Ysgrifennydd

Mae y Tincer yn chwilio am Ysgrifennydd o Medi 2025 ymlaen.

Am fanylion cysyllter â'r Cadeirydd, Richard Owen.

## 30 mlynedd yn ôl



Cafodd tîm pêl-droed Bow Street dymor llwyddiannus unwaith eto. Hwy oedd pencampwyr Adran i Cynghrair Ffigar ac fe'u gwelir gyda'r darian yn y llun. Enillwyd hefyd gwpan y Cynghrair Cwpan Len a Julia Newman a Chwpan Coffa Tim James. Rhes gefn: Paul James, Jonathan Thomas, Andrew Roberts, Neil Davies, ?? Williams, Mathew Harriison, Hugh Griffiths, Chris Ca??
(Rheolwr); rhes flaen: James Thomas, Christopher Howard, Adrian Evans, Steve Jones, (Capten), Gerwyn Evans, Andy James
Llun: Vaughan Griffiths (O'r *Tincer* Mehefin 1995)

## Erthygl ddifyr

Gwelir erthygl ddiddorol o ddiddordeb lleol yn rhifyn cyfredol *Ceredigion* - cylchgrawn Cymdeithas Hanes Ceredigion (Cyfrol XIX rhif 4 (2024). Awdur yr erthygl T. Gwynn Jones ac R. J. Rees: dau Gristion yn ystod y Rhyfel Mawr yw Gwyn Jenkins, Tal-y-bont.

Bu T. Gwynn Jones yn byw yn Hafan tan y symudodd i Willow Lawn, Ffordd Caradog Aberystwyth ym 1944 ac roedd Y Parchg R.J. Res, gweinidog y Tabernacl, Aberystwyth – tad Goronwy Rees, fu'n brifathro Coleg Prifysgol Aberystwyth, yn fab y Ruel Isaf, Bow Street.

Gellir archebu y rhifyn oddi wrth Ysgrifennydd Cyhoeddiadau y Gymdeithas – Michael Freeman, Llysblodau, Primrose Hill, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3SW am £5.

## Côr ABC yn Dathlu 30 Mlynedd o Gân gyda Chyngerdd Arbennig

Mae eleni yn nodi carreg filltir bwysig i Gôr ABC, wrth iddynt ddathlu 30 mlynedd o berfformio gyda chyngerdd yn Eglwys y Drindod, Aberystwyth. Cynhelir y digwyddiad arbennig mewn cydweithrediad â Musicfest Xtra ar 3 Gorffennaf am 7:30yh, a bydd hon yn noson gofiadwy o gerddoriaeth glasurol draddodiadol a chyfoes o Gymru a'r byd – o alawon gwerin Cymreig i gerddoriaeth glasurol gan gyfansoddwyr cyfoes arloesol.

Nid oes tâl mynediad ond croesewir rhoddion, a bydd yr holl gasgliad yn mynd yn uniongyrchol at Wasanaeth Cerddoriaeth Ieuenctid Ceredigion, gan gefnogi addysg gerddoriaeth i blant ledled y sir. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod gan ddisgyblion yng Ngheredigion y cyfle i archwilio a mwynhau cerddoriaeth trwy wersi a gweithgareddau.

Mae Côr ABC, a sefydlwyd ym 1995, wedi dod â chantorion o bob oed a chefndir ynghyd, a hynny o bob cwr o'r rhanbarth. Bydd y cyngerdd pen-blwydd yn gyfle i berfformio detholiad o ganeuon o'u *repertoire* o'r 30 mlynedd, gan gynnwys perfformiad cyntaf o ddarn a gomisiynwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan y cyfansoddwr Nathan James Dearden a'r Prifardd Dafydd John Pritchard. Bydd y cyngerdd hefyd yn dathlu ymrwymiad cadarn y côr i gerddoriaeth, y gymuned, a'r genhedlaeth nesaf o berfformwyr.

"Rydym yn hynod falch o fod yn nodi tri degawd o greu cerddoriaeth," meddai'r Arweinydd Louise Amery, "ac rydym yn gobeithio y bydd y gymuned gyfan yn ymuno â ni i ddathlu'r daith hon a chefnogi dyfodol cerddoriaeth yng Ngheredigion."

## RHODDION

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

**Alwyn Hughes** – £15 · **Teulu Hughes** – £10






# Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**

*Mehefin*

22 10.30 Enfys Evans Oedfa deuluol
29 2.30 Bethel – Judith Morris

*Gorffennaf*

6 10.30 Peter Thomas – Bethel Aberystwyth – Sul yr ofalaeth
13 10.30 Gareth William Jones
20 2.30 Wyn Morris
27 2.30 Judith Morris

*Awst – addoli yn y dref*

3 10.00 – M Rhidian Griffiths
10 S Andrew Lenny
17 B Denzil Morgan
24 M Eifion Roberts
31 S J Gwyndaf Richards

*Medi*

7 10.30 Judith Morris – Horeb – Sul yr ofalaeth



Llongyfarchiadau i Ned Williams am ddod yn ail yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar ysgrifennu adolygiad.

**Cofio Brian Evans**

Yn ddiweddar fe gollon ni Dr Brian Evans, gynt o Ger-y-llan, Penrhyn-coch. Ganwyd Brian yng Nghaerfyrddin yn 1934. Wedi addysg gynradd yn y dref ac yna yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn Caerfyrddin fe wnaeth Brian ei ddwy flynedd o wasanaeth gwladol yn yr Awyrlu. Wedyn aeth i weithio gyda ICI Metals yn Birmingham, ac fe wnaeth y cwmni ei anfon i Brifysgol Aston lle y graddiodd mewn Cemeg yn 1960. Wedi hynny tair blynedd ym Mhrifysgol Southampton lle y derbyniodd radd Doethor mewn Cemeg Organig yn 1964. Am bum mlynedd bu'n ddarlithydd Cemeg yng Ngholeg Technolegol Sir Fflint (sy'n awr yn rhan o Goleg Cambria). Penderfynodd newid cyfeiriad yn 1970 a phenodwyd ef ar staff y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, ac yno y bu hyd ei ymddeoliad yn 1994.

Mae'n siŵr mai un peth a ddenodd Brian i Aberystwyth oedd ei fod yn frwd iawn dros y Gymraeg a thros Gymru. Bu'n aelod o Blaid Cymru a Chymdeithas yr Iaith ers y chwedegau, ac yn ganfasiwr cyson mewn etholiadau tra gallodd. Roedd yn un o'r rhai a wrthododd dalu am y drwydded deledu yn ystod yr ymgyrch i sicrhau sianel deledu Gymraeg. Bu hefyd yn weithgar gyda Chymdeithas y Dysgwyr trwy fynychu sesiynau sgwrsio i roi ymarfer a hyder i siaradwyr newydd.

Un o ddiddordebau mawr Brian oedd byd natur, a bu'n aelod brwd o Gymdeithas Edward Llwyd am flynyddoedd. Fe arweiniodd sawl taith i'r Gymdeithas, bu'n Ysgrifennydd am gyfnod, a byddai i'w weld ar ddyletswydd ym mhabell y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn gyson. Fel aelod gweithgar o Is-bwyllgor Cyhoeddiadau'r Gymdeithas bu'n aelod o'r tîm a fu'n gyfrifol am gyhoeddi pedair cyfrol o enwau Cymraeg creaduriaid a phlanhigion.

Roedd llawer o garedigrwydd yn Brian. Bu'n dda iawn gyda Delwyn Phillips pan ymddeolodd Delwyn i Aberystwyth; roedd Brian wedi dod i'w adnabod yn ystod cyfnod Birmingham. Hefyd dangosodd ofal mawr dros ei gymydog, Tedi Millward, yn ystod ei flynyddoedd olaf.

Roedd cof Brian yn pallu ers sawl blwyddyn a bu raid iddo adael y Penrhyn ddechrau 2020. Bu mewn cartref yn y Fenni, ac yna yng Nghaerdydd, a bu'r plant yn fawr eu gofal ohono. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf at y plant, Bedwyr a Branwen, a'r wyres, Siriol, ac aelodau eraill y teulu.

**Cymanfa Ganu**
**Clwb Sul Horeb**

Aelodau Clwb Sul Horeb yn ledio un o'r emynau yn y Gymanfa Ganu yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth bore Sul 18 Mai dan arweiniad Llio Penri.





**Mainc newydd wedi ei phrynu o arian dros ben o'r Cinio Cymuned cyn covid, wedi ei rhoi ar dir Neuadd yr Eglwys, lle cynhaliwyd y cinio. Bydd plac yn cael ei roi yn yr wythnosau nesaf.**





## Merched y Wawr

Gwau a chlonc yn mwynhau pryd o fwyd yn yr Halfway, Pisgah. Hoffen ddiolch o galon i Garej Tŷ Mawr am y grant o fil o bunnoedd o gwmni Nisa. Bydd yr arian yn cael ei wario ar wibdaith i Bortmeirion ddiwedd Gorffennaf.
Elisabeth Wyn oedd yn gyfrifol am y wers Gwau a chlonc.. Os hoffech ddod i ymuno gyda ni rydym yn cwrdd yn Neuadd y Penrhyn pob bore dydd Iau 10-12.

# Twrnament Pêl-droed Ieuenctid Penrhyn-coch

Cynhaliwyd y Twrnament eto eleni ar benwythnos braf yng nghanol Mai.Daeth nifer fawr o dimoedd i gystadlu ar y nos Wener, dydd Sadwrn a dydd Sul gan greu tipyn o benbleth ynglŷn â pharcio, ond daethpwyd i ben drwy barcio ychwanegol yn IBERS a bws i'w cludo i Cae Baker ac yn ól. Diolch i Mel Evans, Mid Wales Travel ac IBERS yn ogystal â'r Neuadd, yr Eglwys, a Thafarn y Roosters am le i barcio.. Cafwyd tridiau o bêl-droed brwd gyda heulwen bendigedig bob dydd.

Diolch i'r holl noddwyr a phawb fu ynghlwm yn helpu paratoi, ar y dydd neu wrth dalu am hysbysebion a thlysau. Diolch yn bennaf i'n prif noddwr am y twrnament Tafarn y Roosters.



**Jonah Davies, Llanilar Llewod B a Liam Jones, Penrhyn-coch, chwaraewyr y dydd, dydd Sul**



**Ann Tudor yn cyflwyno y cwpan i Anni Rees-Davies, merch orau y twrnament.**

Nos Wener
Enillwyr o dan 15: Ystwyth Bears
Chwaraewr gorau Nos Wener - Evan Pike, Panthers Penrhyn-coch yn derbyn tlws yn rhoddedig gan Catrin a Sioned Thomas, merched Eric Thomas.

Dydd Sadwrn
Roedd dydd Sadwrn yn ddiwrnod ang-nghystadleuol i rai o dan 7 a 11 oed. Cafwyd tipyn o gythrel gystadlu er nad oedd sgoriau yn cael eu cadw.

Enillydd chwaraewr y dydd: Osian Davies, Bow Street dan 7

Dydd Sul
Enillwyr o dan 13 - Bow Street
Chwaraewr y dydd : rhannu rhwng Jonah Davies, Llanilar Llewod B a Liam Jones, Penrhyn-coch
Cwpan coffa Gwenno Tudor yn rhoddedig gan deulu Tudors : enillwyd gan Anni Rees-Davies, Penrhyn-coch

Gwobr Goli gorau y twrnament yn rhoddedig er cof am Kevin {Bones} Jenkins: Yousef Abdelkarim, Penparcau

**Swydd newydd**
Dymuniadau gorau i Greg Vearey-Roberts sydd wedi ei benodi yn bennaeth ysgolion cynradd Tal-y-bont a Chraig-yr-Wylfa.



**Llongyfarchiadau i Sion Wyn am ennill gwobr yn ICA Casnewydd am ei ran fel Buttons ym mhantomeim y Wardens y llynedd.**

## Cyngor Cymuned **Tirymynach**

Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol ar 4 Mehefin.

Rhoddodd y Cadeirydd, Meinir Chambers, adroddiad ar waith y cyngor dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Soniodd am y gwaith caled mae'r clerc, Ruth, wedi'i wneud yn rhoi trefn ar sawl agwedd o waith y cyngor. Cyfeiriwyd at nifer o elfennau positif – llwybr troed i bentref Dolau, gwefan newydd, https://www.cyngortirymynach.co.uk/index.htm hysbysfwrdd newydd, llwyddiant yr orsaf drên, cynnig help ariannol i nifer o gymdeithasau lleol, digwyddiadau e.e. goleuo'r goeden Nadolig, gwella parc Bryncastell ac ati, a chafwyd dau aelod newydd, sef Manon a'r Cynghorydd Gareth Lewis.

Ond bu hefyd yn gyfnod trist – collwyd y Cynghorydd Paul Hinge, Meinir Lowry a Dewi Evans, a blynyddoedd o brofiad a gwybodaeth leol gan y tri.

Mae cyfnod Meinir wrth y llyw wedi dod i ben, a bydd Annette Keyworth yn cymryd ei lle yn y gadair. Pob dymuniad da i Annette, a diolch i'r Clerc am ei gwaith diflino.


**Rhai materion eraill**
Mae'r gwaith ym mharc Bryncastell yn parhau. Gobeithio bod modd gwneud cais am grantiau ac ati er mwyn ei wella ymhellach – cael ffensys mwy diogel, cyfleusterau i rai ag anableddau ac ati.

Mae'r llwybr i'r dref yn dod yn ei flaen – bydd yn gaffaeliad mawr ac yn llwybr diogel i gerddwyr a beicwyr.

Cyfarfod nesaf: **3 Medi**, Neuadd Rhydypennau, 6.30. Plis dewch i weld beth sy'n cael ei drafod, ac i roi eich barn am y gymuned. Cewch groeso mawr – mae angen gwaed newydd!

# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Mae'n bur debyg mai fel y *Fron* y bydd mwyafrif trigolion yr ardal yn adnabod y fferm a saif ar y llechwedd uwchlaw pentref Capel Bangor yn nyffryn Melindwr, ond mae'n werth dwyn i gof ei henw llawn gwreiddiol sef *Bronllangwrda*.




**Map 6" Arolwg Ordnans Ceredigion VI SE (1887)**
© Arolwg Ordnans (100064713)

Daw'r cyfeiriad cynharaf at yr enw, *Tythin Bronlangwrda*, o ewyllys Richard Lewis, Cefn-gwyn, Elerch, yn 1688.[1] Fe'i rhestrir yng Nghofrestr Plwyf Llanbadarn Fawr yn Ebrill 1736 yn y ffurf *Bron-glan-Gwrda*.[2] Ond *Bronllangwrda* a gofnodwyd mewn gweithred yng nghasgliad stad Gwynfryn, Llangynfelyn, yn Rhagfyr 1778,[3] a'r ffurf honno a welir mewn dogfennau gan amlaf wedi hynny.

*Bron*, rhan o'r corff, yw'r elfen gyntaf yn disgrifio lleoliad yr annedd ar ymchwydd yn y llethr, ond beth am weddill yr enw?

Awgryma tystiolaeth yr enghreifftiau mai *llan* 'eglwys, mynwent' yw'r ail elfen. (Gellir esbonio'r amrywiadau *glan* a *lan* gan y duedd i'r tair elfen ymgyfnewid mewn enwau lleoedd.) Ategir hynny mewn sylw gan Lewis Morris (a fu'n byw heb fod ymhell yng Ngalltfadog, Cwm Main, ac ym Mhenbryn, Goginan) yn *Celtic Remains*:

> *Bron Llangowrda*, the ruins of a chapel in Cardiganshire.[4]

Fel sy'n arferol gyda'r elfen *llan*, enw sant sy'n dilyn, ac fe'i cysylltir yn *Lives of the British Saints* â *Cawrdaf*, mab Caradog Freichfras.[5]

Mewn gwirionedd, gellir olrhain yr enw *Llangwrda* yn ôl hyd yn oed ymhellach. Yng nghyfundrefn yr hen Gyfreithiau Cymreig, rhennid pob cwmwd yn *westfaoedd*, sef unedau tiriogaethol lle câi treth ei thalu ddwywaith y flwyddyn i'r brenin (neu bob chwarter i'r arglwydd). Gwyddom fod y drefn hon yn dal yn weithredol yng Ngheredigion hyd y bedwaredd ganrif ar ddeg. Bryd hynny roedd Cwmwd Perfedd wedi ei rannu'n bedair gwestfa, sef *Gwestfa Trefmeuric*, *Gwestfa Redonnen* (Rhydonnen), *Gwestfa Llangurda*, a *Gwestfa Dyffryn Rheidol*,[6] o bosibl yn cyfateb yn fras i barseli neu blwyfi diweddarach Trefeurig, Parsel Canol, Melindwr, a Chwmrheidol. Mae sail dros ddadlau, felly, mai capel anwes yn perthyn i blwyf Melindwr oedd *Llangwrda*.

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru
a Geiriadur Prifysgol Cymru https://www.geiriadur.ac.uk/

1. Ewyllys SD/1688/96 (LlGC).
2. Cofrestr Plwyf Llanbadarn Fawr 1678-1736, t.124.
3. Gwynfryn 53 (LlGC).
4. Lewis Morris, *Celtic Remains*, ed. D. Silvan Evans (1878) t.103.
5. S. Baring-Gould & John Fisher, *Lives of the British Saints* ii. (1908) t.95.
6. William Rees, *South Wales & the Border in the XIV Century* (1932).




YTincer@googlemail.com

## Cylch Cinio

Roedd yn hyfryd cael dychwelyd i Glwb Rygbi Aberystwyth wedi rhai blynyddoedd o seibiant. Am gyfnod hir bu'r Clwb ym Mhlas-crug yn gartref lled sefydlog i ni ar gyfer ein cyfarfodydd. Braf gweld bod llawer o waith da wedi ei wneud erbyn hyn i'r adeilad ac roedd y croeso cynnes a'r bwyd blasus yn addawol iawn am noson dda arall o gymdeithasu. Rwyn falch o ddweud na chawsom ein siomi.

Roedd y noson yng ngofal y cerddor proffesiynol Rhys Taylor. Soniodd gydag angerdd am ei fagwraeth hapus yn Waunfawr Aberystwyth, am ei gyfnod yn yr Ysgol Gymraeg ac Ysgol Gyfun Penweddig gan gyfeirio at y cyfleoedd breintiedig ac arbennig oedd yna yng Ngheredigion ar gyfer datblygu sgiliau plant mewn amryw o feysydd gwahanol.

Roedd rhieni Rhys yn athrawon a' r ddau ohonynt yn gerddorol. Trwy gydol ei blentyndod bu'n cystadlu mewn eisteddfodau dros Gymru a daeth yn gyfarwydd a sefyll o flaen cynulleidfa ers pan yn grwtyn bach. Roedd ei dad yn aelod o fand jazz y Cwps a threuliodd oriau o'i blentyndod yno yn gwrando ar y miwsig ac yn dynwared bois y band a'u offerynnau.

Pan oedd yn ei arddegau cynnar cafodd ei fwlio gan rai o'i

## Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth 24/05/2025**
(893 cliriad llwyr )

Mynediad tymhorol gyda masnachu brwd ar y mamogiaid cwlio trymaf. Cynyddai yr ŵyn gwanwyn gyda chyplau yn gwerthu yn dda o ystyried y tywydd sych. Roedd prisiau fel a ganlyn.

Defaid lladd (477) Cyf £119 Mwy £200 gan Evans, Brynawel, Cnwch-coch
Hyrddod lladd (32) Cyf £152. Mwy £260 gan Evans, Brynawel, Cnwch-coch
Ŵyn a mamogiaid (108) Cyf £139 Mwy £200 gan Bason, Fferm Pantmawr, Llanilar
Ŵyn cynnar (44) Cyf £108 Mwy £133 gan Corfield, Blaencarrog
Ŵyn blwydd (172) Cyf £80 Mwy £126 gan Jones, Pen-cefn, Bow Street.
Sêl dda iawn heddiw gyda phrisiau da
Diolch i'r prynwyr a'r gwerthwyr am eu cefnogaeth.



**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus hwyr i Lyn Evans, Deilyn, a ddathlodd ei phen blwydd yn 80 yn ddiweddar.

**Geni wyresau**
Llongyfarchiadau i Marged a Patrick ar enedigaeth wyres – Llio ar 5 Mehefin. Ganwyd merch fach i Gwen a Rob Sing yng Nghricieth.

Hefyd i Iona a Meirion Davies , Cefngwyddil, Cefn-llwyd ar enedigaeth wyres – Mabli Mair, merch fach i Trystan a Non yn Sarn, ger y Drenewydd.

**Marwolaeth**
Trist yw cofnod marwolaeth Evelyn Morgan, Cefenfaenor, Capel Dewi, yng nghartref Cwmfelin. Cydymdeimlwn â'r mab Prys a'r teulu yn Aber-ffrydlan, Llanwrin. Roedd Evelyn yn enedigol o Lanilar a bu'n byw am gyfnod hir yn Nhŷ'r Yasgol, Pontrhydfendigaid

## Cwmerfyn

**Derbyn tystysgrif**
Yn y Sasiwn a gynhaliwyd ym Mwlchgwynt, Tregaron ar 8 Mai, llongyfarchwyd blaenoriaid a oedd yn dathlu cyfnod hir o wasanaeth. Yn eu plith oedd Wynford Evans, Maes Gogerddan, sydd wedi cyflawni 75 mlynedd fel blaenor yn yr Henaduriaeth, record anghyffredin iawn. Cafodd ei ethol yn flaenor ym Methlehem, Cwmerfyn yn 1949 a'i ordeinio ym 1950. Nid oedd Wynford yn gallu bod yn bresennol i dderbyn ei dystysgrif ond fe'i cyflwynwyd iddo ychydig ddyddiau yn ddiweddarach. Mae Wynford, sydd bellach yn 97 oed, yn dal i gymryd diddordeb yn hanes yr ardal.



gyd-disgyblion yn yr ysgol am nad oeddent yn ystyried cerddoriaeth, canu cerdd dant a pherfformio yn macho. Cafodd hyn gryn effaith arno hyd nes i Clem Thomas yr athro chwaraeon awgrymu hwyrach yr hoffai roi cynnig ar daflu javelin ym mabolgampau'r ysgol. Cafodd hwyl arni a buan iawn dechreuodd ennill gwobrau a medalau yn sirol a chenedlaethol. Tyfodfd ei ddiddordeb a'i lwyddiant mewn athletau a dechrau rhedeg a newidiodd agwedd ei gyd-ddisgyblion ato.

Treuliodd gyfnod yn y Coleg Cerdd a Drama yng Nghaerdydd ac yna bu'n byw yn Llundain a Chaerdydd gan mai yno oedd y gwaith. Mae ef a'i deulu erbyn hyn wedi ymgartrefu yn Llanwnen.

Mae hefyd yn un o enillwyr Ysgoloriaeth Urdd Gobaith Cymru Bryn Terfel. I gloi'r noson rhoddodd berfformiad byr ar hen glarinet ei fam. Roedd pawb wedi eu swyno gan faint ei dalent cerddorol a bod y miwsig ar flaen ei fysedd. Wrth ddiolch iddo cyfeiriodd Malcolm Davies, cymydog a ffrind i'r teulu yn Waunfawr, am ei lwyddiant ysgubol gan ei ganmol yn arbennig am ddychwelyd o Gaerdydd i fagu teulu yng Ngheredigion. Byddai'n dda gweld eraill yn ei ddilyn. Glyn Saunders Jones, Atebol oedd enillydd y raffl.

Mae yna edrych ymlaen yn fawr iawn at ein cyfarfod pen-tymor ym mis Gorffennaf yng



Y cerddor proffesiynol Rhys Taylor oedd gŵr gwadd Cylch Cinio Aberystwyth yng nghyfarfod mis Mehefin a gynhaliwyd yn y Clwb Rygbi ym Mhlas-crug. Yn cadw cwmni i Rhys yn y llun mae Huw Williams, Ysgrifennydd; Geraint Vaughan, Cadeirydd a Malcolm Davies.

ngwesty byd-enwog Y Talbot, Tregaron a hynny yng nghwmni y newyddiadurwr, yr awdur toreithiog, y pregethwr a'r storïwr ffraeth Lyn Ebenezer Pontrhydfendigaid.

# Eisteddfod Penrhyn-coch 2025

## Fy arwr

"Haia Dad!" Lluchiodd Izzy ei sach gefn wrth y drws a thaflu ei ffôn ar fwrdd y gegin. Llenwodd wydryn â dwr oer o'r tap a'i yfed ar ei thalcen. Roedd wrth ei bodd â gwyliau'r haf a gwres diwedd Awst.

"Ti'n iawn? Lle fuest ti?" Daeth Dad i'r gegin â basged dan ei fraich. "Dydy dy ddillad di ddim yn mynd i olchi'u hunain, madam!" Rhoddodd winc at ei ferch cyn dechrau llwytho'r peiriant.

"Jest allan ar y beic rownd Esgair, dim byd arbennig."

"Cymer di ofal. Cofia dwyt ti ddim yn clywed popeth efo'r teclyn–"

"Ok, Ok." Torrodd Izzy ar ei draws. "Paid ffysan. Ac roedd Zac efo fi."

Gwenodd Dad arni ond roedd gofid tu ôl i'r wên. Gwasgodd ambell fotwm a daeth sŵn rhuthr dŵr wrth i'r peiriant golchi ddeffro.

Teimlai Izzy'n flin am ei ateb mor swta, ond fiw iddi ddweud wrtho lle oedd hi wedi bod. Aeth ato a gwasgu ei fraich. "Dwi'n iawn, wir. Dwi'n mynd i'r llofft i edrych am fwy o stwff ... erbyn dydd Llun." Cododd ei ffôn o fwrdd y gegin. "Dim ond wythnos cyn dechrau'r tymor newydd." Wythnos? Boncyrs!

---

Cododd Izzy ei phen o'i ffôn ac edrych ar y ceir oedd yn gwibio ar hyd y lôn. Doedd hi ddim yn rhy hoff o'r ysgol – y sibrwd, y pwyntio at y teclyn tu ôl i'w chlust, y trio canolbwyntio pan oedd pawb o'i chwmpas yn clebran. Roedd ar fin mynd i Flwyddyn 6. Y flwyddyn olaf cyn aid mentro i ganol y cannoedd o rai hŷn, y sŵn traed, y gweiddi, y rhuthro, y bysys orlawn.

Trodd yn ôl at ei sgrin. Doedd hi'n gwybod fawr ddim am hen fwynglawdd Banc-y-rhyd uwchben y pentref. Aeth Zac a hi yno i fusnesa ar ddechrau'r gwyliau, a phenderfynu mai dyna fyddai testun eu prosiect hanes lleol. Eu cyfrinach nhw oedd hyn; doedd hi na Zac wedi sôn wrth neb. Sgroliodd yn ei blaen:

*Mwynglawdd a gaewyd yn 1910 oedd Banc-y-rhyd, ger pentref Esgair, wedi canrif a hanner o gloddio am blwm. Y cyfan sydd yno bellach yw tomenni sbwriel a pheiriannau rhydlyd. Mae'r siafftiau i'w gweld o hyd ...*

Symudodd ei bys ar i fyny er mwyn symud y wefan yn ei blaen.

*Bu damwain angheuol yno pryd y syrthiodd rhan o'r to ar ben bachgen ifanc 10 oed oedd yn gweithio ar un o'r lefelau dan y ddaear.*

10 oed – yr un oed â hi. Gweithio dan ddaear. Caeodd ei llygaid a dychmygu – tywyllwch, clancio'r wageni, ceibiau'n taro, gweiddi ...

"Dad?" gwaeddodd Izzy. "Ydi Taid yn dod yma?"

"Ydi, gewch chi swper efo'ch gilydd ac mae o'n aros heno tra 'mod i'n gweithio yn 'sbyty. Iawn?"

"Grêt!"

Un da oedd Taid Puw. Roedd hwnnw'n llawn straeon am Esgair, a gallai ymestyn stori fel petai'n ddarn o elastig. Doedd hi ddim eisiau cyfaddef ei bod hi'n mwynhau gwrando arno – roedd hi bron yn 11 oed a braidd yn hen am stori, ond roedd geiriau Taid rywsut yn gafael.

---

"Dwi'n rhyw gofio fy nain yn sôn."

Rhofiodd Izzy y bwyd i'w cheg wrth wrando ar Taid Puw. Roedd Izzy wedi mentro gofyn iddo am ddamwain Banc-y-rhyd. "A deg oed, ie? Yr un oedran â fi."

Ddwedodd Taid yr un gair am eiliad neu ddwy.

"Creadur bach. Eben? Ie, Eben. Chwalodd un o'r pyst oedd yn dal y to, medde nhw, tra ei fod o'n llenwi wagen. Llwyddodd i gael y bois eraill allan o'r lefel ond fuodd o ddim mor lwcus. Fuodd y teulu byth yr un fath wedyn. Aethon nhw o 'ma yn reit sydyn, lawr i'r cymoedd, dwi'n meddwl."

Cnodd Izzy ar dafell o bizza a gwylio Taid yn hel meddyliau, y rhychau ar ei dalcen fel traciau trên. Plygodd yn agosach ati.

"Pam wyt ti'n holi? Ti wedi bod yno? Roedd ei lais wedi newid mwya' sydyn. Edrychodd i fyw llygaid ei wyres. Wel?"

Llyncodd Izzy'n galed. "Plis paid â deud wrth Dad. Plis – ro'n i jest isie gweld y lle, cael syniadau ar gyfer prosiect Huws Hanes, a bydd Zac efo fi, yn bydd, pan awn ni 'nôl i dynnu lluniau."

"Pryd dech chi'n mynd?"

"Bore fory. Plis, Taid."

Gwenodd ar ei wyres, ond roedd y wên yn llawn consyrn. "Iawn, ond gofala cadw draw o'r hen siafft, a tecstia'n syth os oes unrhyw drafferth. Gofala fod dy declyn yn sownd, iawn? Galla i ddod yn y pic-yp i'ch casglu."

Gwasgodd Izzy ei fraich a dechrau clirio'r llestri.

"Reit 'y mechan i, Monopoly neu Scrabble?"

---

"Ty'd, Zac, ti fel malwoden! Rasia i di at dop y rhiw!"

Gwibiodd Izzy heibio i mi ar ei beic newydd – anrheg gan ei llys-fam ar ei phen-blwydd fis Mai. Sgrialodd drwy'r graean a thasgu'r cerrig mân i bob cyfeiriad. Daeth i stop yn sydyn, a rhedodd y defaid o'i llwybr. Edrychodd i lawr arna i wrth i mi simsanu i fyny'r bryn wrth bedlo'n galed i gyrraedd y grib.

"Iesss – o'r diwedd!" ebychais. Gosodais un droed ar y ddaear i sadio'i hun.

Tynnon ni'n helmedau ac edrych o'n cwmpas. Yr unig synau oedd ambell fref a sŵn ein hanadlu trwm. O'n blaenau roedd hen weithdai'r mwynglawdd, pentyrrau o rwbel ac ambell beiriant yn goch gan rwd.

"Dwi jest yn mynd at y siafft i gael golwg, Zac. Sdim signal yma, oes e?" meddai Izzy gan edrych ar ei ffôn. "Sdim ots." Dringodd oddi ar y beic a cherdded tuag at yr hen furiau, gan wthio'r beic, y graean yn crensian dan yr olwynion. "Cer di fan'na i gael cwpwl o luniau."

"Iawn, bòs!" Gallwn i dynnu coes Izzy – ro'n i'n ffrindiau ers Blwyddyn 2, ac yn deall ein gilydd i'r dim. Roedd yn gas gen i weld rhai o griw'r dref yn dweud pethau dan eu gwynt amdani, dim ond am ei bod hi'n 'wahanol'. Er gwaetha'r teclyn clyw, roedd Izzy'n ddewr, yn ddewrach nag un ohonyn nhw. Doedd dim byd yn rhwystr iddi ... Gwyliais hi'n mynd at yr adfail cyn i mi droi 'nghefn a dewis y man gorau i sefyll er mwyn cael tynnu lluniau. "Hei, dwi newydd gofio," gwaeddais dros fy ysgwydd. "Pan awn ni 'nôl rhaid i ti weld y fideo TikTok 'ma ffeindies i neithiwr. Class! Mae'r bochdew 'ma, reit, yn rhedeg–"

Codais fy mhen i weld a oedd hi wedi fy nghlywed, ond doedd dim sôn amdani. "Izzy?" Daeth hen deimlad annifyr i bwll fy stumog. Rhedais at yr adfail lle welais hi eiliadau'n gynt. Wrth ymyl un o'r waliau roedd agoriad siafft y mwynglawdd, a'r ffens oren oedd yn cadw pobl draw wedi chwalu'n yfflon.

"O na Izzy, plis paid deud bo' ti wedi mentro–" Aeth fy ngheg yn sych. Roedd ei beic yno ar ei ochr, a'i helmed. Rasiai fy nghalon. Yno hefyd roedd ei ffôn, ynghyd â sgwaryn bach plastig gwyn yn y rwbel – y teclyn clyw.

"Izzy? Byddai'n rhaid imi weiddi'n uwch nag erioed. "Izzy!"

Doedd dim sŵn heblaw am ambell fref a'r gwynt drwy'r rhedyn.

"Help – rhywun!"

---

Gwasgodd Ben Puw sbardun y pic-yp yn galed ac ymatebodd yr injan, gan ruo fel llew wrth fynd dros y trac caregog i fyny'r bryn. "Izzy fach, teipia neges gall tro nesa!" Siaradai wrtho'i hun wrth fownsio mynd. Roedd newydd orffen clirio'r llestri pan glywodd ping ei ffôn. Am neges od – doedd dim geiriau. Rhyfedd. Doedd Ben ddim yn poeni – rhaid bod Izzy wedi gwasgu botwm mewn camgymeriad. Gwell iddo checio bod popeth yn iawn; wedi'r cyfan, hi oedd cannwyll ei lygad ers iddo golli Brenda, ei ferch ...

---

Dwi erioed wedi bod mor falch o glywed rhu'r pic-yp. Rhedais at y cerbyd wrth i daid Izzy agor y drws. Rhewodd wrth weld y panig yn fy llygaid.

"Be uffarn–? Zac?"

"Mr Puw! Sut oeddech chi'n gwyb– ? Mae Lizzy wedi diflannu. Draw fan'na. Dwi ddim wedi gallu ffonio–".

Rhedodd y ddau ohonom nerth ein traed a gweld agoriad y siafft a'r ffens ar chwâl. Gwaeddodd Mr Puw ar dop ei lais. "Izzy!" Dim ond atsain oeraidd ddaeth 'nôl o'r siafft. Sylwodd fod gen i rywbeth yn fy llaw ac aeth ei wyneb yn llwyd fel lludw. Ffôn a theclyn clyw. Edrychon ni ar ein gilydd heb ddweud dim.

---

Rhwbiodd Izzy ei llygaid Pesychodd. Lle oedd hi? Sylwodd ei bod hi'n gorwedd ar ei bol. Ceisiodd gofio. Do, aeth heibio'r adfail at y siafft, a rhoi ei beic newydd ar lawr gyda'i helmed. Lle oedden nhw? Doedd dim o'i chwmpas ond llwch a brics. Roedd hi'n cofio plygu i roi ei ffôn wrth y beic a throi'n sydyn. Yna syrthio. Tawelwch llwyr. Düwch ... cyn gweld fflam welw yn simsanu o'i blaen. Falle ei bod hi wedi taro'i phen ... a'r peth nesa roedd hi fan hyn, yng ngolau dydd ...

Cododd ar ei heistedd a sgubo'r llwch o'i dillad. Oedd rhywun yn gweiddi? Clustfeiniodd eto gorau gallai. Roedd rhyw sŵn yno yn y pellter. Cododd ar ei thraed yn ofalus. Yn y pellter gallai weld Zac – a Taid Puw! Sut uffarn oedd Taid wedi cyrraedd yma?!

"Draw fan'yn – fan'yn!" gwaeddodd, gan beswch, ei llais yn gryg gan lwch.

---

"Mr Puw – fan'na!" Gafaelais yn ddiseremoni yn yr hen ddyn a sgathru dros y rwbel yr eiliad clywais i lais Izzy.

O fewn chwinciad roedden ni wrth ei hochr, a'i thaid yn ei gwasgu fel petai'n degan meddal ac yn cusanu top ei phen.

"Be– be ddigwyddodd? Un funud roeddet ti fan'na, 'di cwympo," pwyntiais draw at ochr arall y mwynglawdd, "a dyma ti fan hyn!"

"Dwi ddim yn gwybod. Dwi'n cofio gadael y beic, ond fawr ddim arall."

"Ond mae'r beic reit draw fan'na, efo dy ffôn, a hwn." Estynnais y teclyn yn ofalus a rhoddodd Izzy'r blwch tu ôl i'r chlust. Gafaelodd yn fy mraich.

"Diolch i ti. A diolch am decstio Taid."

"Ond wnes i ddim. Sdim signal ... a sut ddest ti i fan hyn?"

"Sdim ots am hynny nawr, Zac," torrodd Mr Puw ar fy nhraws. "Be sy'n bwysig yw bod Izzy'n saff. Ti'n teimlo'n iawn? Fedri di gerdded?"

A braich ym mraich aeth Izzy a'i thaid a fi yn ôl at y pic-yp. Llwythwyd ein beics ar y cefn ac aeth y tri ohonom yn ôl am Esgair, heb fod yn hollol siŵr oedd newydd ddigwydd.

---

Wnaeth neb ddweud gair wrth Mam, er 'mod i'n disgwyl cael andros y stŵr. Od, yndê? Aeth Izzy at y meddyg ond doedd hi ddim gwaeth, dim ond ambell glais, oedd hyd yn oed yn fwy od. Cytunodd Izzy i deipio mwy o'r prosiect a'i ddangos i mi cyn ein bod ni'n ei anfon at Huws Hanes, felly galwais heibio i ni roi trefn arno.

"Ar ôl dod 'nôl o'r Banc dwi wedi bod yn copïo mwy o'r wefan. 'Drycha."

Gwthiodd Izzy ei chliniadur ata i dros y bwrdd.

*Bu damwain angheuol yn Manc-y-rhyd pryd y syrthiodd rhan o'r to ar fachgen ifanc 10 oed oedd yn gweithio ar un o'r lefelau dan y ddaear. Credir ei fod yn helpu ei gyd-weithwyr i symud o'r lefel pan ddigwyddodd y ddamwain. Achubwyd pawb ond y bachgen.*

*Flynyddoedd lawer ar ôl y digwyddiad, a'r mwynglawdd yn segur, soniodd rhai o'r bobl leol eu bod wedi gweld golau lantern yn yr olion, ond hen goel yw hon bellach a fawr neb yn credu'r suon fod ysbryd y bachgen yn gwarchod Banc-y-rhyd ...*

"Dwi ddim wedi dweud wrth neb achos ro'n i'n meddwl 'mod i'n drysu, ond welais i olau yn y tywyllwch," meddai Izzy yn dawel. "Doedd gen i ddim ofn."

"Falle dy fod wedi taro dy ben – *concussion.*" A ninnau'n ddeg oed, doedd credu mewn ysbrydion a thylwyth teg ddim yn cŵl.

Edrychodd Izzy arna i. "A sut wnes i ddod allan o'r siafft?"

Teimlai'r stafell yn oer mwyaf sydyn. Doedd gen i ddim ateb.

"A doedd dim signal ffôn, oedd 'na? Wnest ti na fi yrru neges at Taid."

"Hei, beth am i mi adio'r lluniau at hwn? Gawn ni fynd allan wedyn. Mae'r gwyliau bron ar ben!" Ro'n i wir am newid trywydd y sgwrs.

Wrth i Izzy lwytho'r lluniau, dyma hi'n rhoi bloedd:

"Taid, mae'r prosiect yn barod, fwy neu lai. Ti am ei weld?"

Daeth Mr Puw o'r stafell fyw a gwisgo'i sbectol. Edrychodd ar ei sgrin. "Diwedd mawr, pan o'n i'n gwneud gwaith ysgol papur, beiro, siswrn a glud oedd gen i!"

"Taid, ti'n real deinosor!" chwarddodd Izzy.

Gwyliais wyneb Mr Puw wrth iddo graffu darllen. "Eben druan," meddai dan ei wynt. "Zac, wnei di'r llun ola 'na'n fwy?"

Rhoddais fy mys ar y sgrin a'i chwyddo. "Ti dynnodd hwn, Izzy. Ddim un o'm rhai i ydi o."

"Na – dynnais i'r un llun–"

Dyna lle roedd olion yr hen weithdai, pentyrrau o rwbel ac ambell beiriant yn goch gan rwd, ac yn eu canol roedd golau, fel fflam wan. Chwyddais y llun yn fwy a gweld bod Izzy a'i thaid yn craffu'n fanylach.

"Yr haul yn chwarae triciau," meddai Mr Puw. Tynnodd ei sbectol yn frysiog. "Reit, allan nawr. Pan o'n i oedran chi ro'n i allan o fore gwyn– "

"–tan nos. Dwi'n gwybod, Taid. Ti 'di deud hynny ganwaith."

---

Y noson cyn dechrau'r tymor, rhannodd Izzy'r prosiect er mwyn i ni'n dau ei ddarllen. Oedd, roedd y fflam wan yn dal yn y llun olaf. Sylwais fod Izzy a'i thaid wedi newid y diweddglo.

*Flynyddoedd lawer ar ôl y digwyddiad, a'r mwynglawdd yn segur, soniodd rhai o'r bobl leol eu bod wedi gweld golau lantern yn yr olion. Pwy a ŵyr, efallai fod ysbryd Eben, y bachgen dewr, yn dal i warchod Banc-y-rhyd ...*

*Anwen Pierce*

*Enillydd cystadleuaeth*
Eisteddfod Penrhyn-coch 2025
7. Stori addas i blant cynradd:

# Adolygiad: Rhaglen deledu.

Rhaglen: Cysgu o gwmpas: Ynyshir
Un raglen mewn cyfres o raglenni yw “Cysgu o gwmpas: Ynyshir”. Rhaglen sy’n plethu bwyd, cerddoriaeth a sgwrs sy’n cael ei gyflwyno gan bâr annisgwyl, ond hyfryd, sef Beti George a Huw Stephens. Tynnodd y rhifyn yma fy sylw oherwydd y mae Ynyshir, canolbwynt y rhaglen, o fewn tafliad carreg i Benrhyn-coch.

Rhaglen hamddenol, braf a dengys sgwrs personol a oedd yn rhoi pip mewn trwy’r ffenest bywyd y ddau gyflwynydd, ag eto, yn sôn am eu lleoliad gyntaf yn Ynyshir sef y Warchodfa Natur. Enwir ambell i goeden ac aderyn megis yr hwyaid gwyllt a Coch y Berllan a oedd yn cyfoethogi geirfa Cymraeg y gwylwyr. Yr oedd y tywydd yn gwneud i’r lle edrych yn odidog a theimlad hafaidd iawn ag agos atynt, wrth iddynt drafod am Huw Stephens fel aelod o fand ‘Picnic’ a Beti George yn cystadlu mewn Eisteddfodau.

Yn yr ail hanner, teimlaf ein bod yn byw trwy’r profiad unigryw yn y bwyty Ynyshir gyda’r cyflwynwyr. Yr oedd fy ngheg yn dŵra wrth i’r cogydd dwy seren Michelin, Gareth Ward, cyflwyno 30 o blatiau bwyd iddynt. Fel y dywedodd Huw Stephens, “Bwyd ffres, mae’n deffro dyn yndyw e!” Yr oedd yn amlwg eu bod wedi mwynhau’r profiad yn fawr wrth i’r ddau nodi ei fod e’n “Gwefreiddiol”.

Wrth wrando arnynt yn sgwrsio, ar ôl eu noson o gwsg, gallaf weld eu bod wedi mwynhau bwyd gan “Un o’r goreuon yn y byd.” (Beti George). Er fy mod yn gwybod ei fod yn ddrud i ymweld â Bwyty Ynyshir, ar ôl gwylio’r rhaglen, y bydden i’n ystyried fynd yna ar gyfer achlysur arbennig.

Yr oedd y sgwrsio yn rhedeg yn rhwydd a dewiswyd cerddoriaeth gwych i gyd-fynd gyda’r rhaglen. Yr oeddwn hefyd yn hoff iawn o’r hiwmor a ddefnyddiwyd ar ddiwedd pob rhan. Pwy feddylie y byddech yn clywed Huw Stephens yn gofyn i Beti George, “Chi eisiau mwy o bicnic Beti?”!

Yr wyf yn edrych ymlaen at wylio mwy yn y gyfres, er, efallai na fydd fy nghyfrif banc, os byddaf eisiau ymweld â phob lleoliad y mae Beti a Huw yn eu hargymell! Yr oedd y rhaglen yn ei gyfanrwydd yn briodas perffaith i’r synhwyrau – rhaglen ysgafn, gwych!

gan Y Gwyliwr
Lynwen Evans, Llandre - enillydd cystadleuaeth adolygiad Eisteddfod Penrhyn-coch 2025

## Clarach

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â theulu merched Ffynnon Ifan Ddu ar farwolaeth modryb – Llinos Morris yn Llundain.

**Crwydro cyfandir**
Dymuniadau gorau i Alaw Lewis fydd yn treulio deufis yn Camp America cyn teithio UDA am fis.




# Sioe Penrhyn-coch 2024

Cafwyd sioe lwyddiannus unwaith eto eleni ar Awst 17 – man cychwyn da i gystadleuwyr ieuanc a newydd ddangos eu gwaith llafur a’u cariad. Y Llywyddion eleni oedd Caryl ac Owen Roberts.
Yn nghystadleuaeth llun y Tincer yr enillwyr oedd
1 Felicity Broadhurst: Adfeilon o Draeth y Borth;
2 Gwenan Price: Elsie Morgan
3 Jane Richards: Ifan, Henry a Myfi yn barod ar gyfer Taith Tractorau Ysgol Penrhyn-coch yn eu siwmperi RJ Edwards a’i fab.
Y beirniad oedd Jeremy Moore

Swyddogion y Sioe yw - Cadeirydd: Delyth Jones
Ysgrifennydd: Clare Larke; Trysorydd: Andrew Capel.
Cynhelir Sioe 2025 ar Awst 16.







# Llandre

**Cyrtiau Tennis**
Roedd yn fore Sul arbennig ger parc Llanfihangel Genau'r-glyn ar 18 Mai 2025. Dan haul braf ac awyr las, agorwyd y cyrtiau tennis ar eu newydd wedd gan Ben Lake, AS Ceredigion Preseli, yng nghwmni Peter James, Cadeirydd y Cyngor Cymuned, cynrychiolwyr o'r cyngor sir, a chriw o'r pentref. Mae'r cyrtiau wedi cael eu defnyddio ers blynyddoedd lawer gan drigolion yr ardal, a hynny am ddim, a bydd y trefniant hwn yn parhau. Yn yr agoriad, nododd Mr James fod y gwaith adnewyddu wedi'i wireddu yn sgil derbyn grantiau hael, a buddsoddiad sylweddol gan bartneriaid cyllid a'r cyngor cymuned. Gan fod y cyrtiau wedi'u cofrestru gyda'r Lawn Tennis Association, diolch i Tennis Cymru, mae bwriad i gynnal gwersyll tennis plant a sesiynau hyfforddi ar y safle.

Mae'r cyrtiau'n werth eu gweld, gyda'u harwyneb newydd a'u llinellau gwyn, ynghyd â rhwydau a ffensys pwrpasol. Ar adeg pan mae cymaint o gwtogi ar gyfleusterau o bob math, mae angen dathlu llwyddiant y fenter hon yn ardal *Y Tincer.*









**Llongyfarchiadau i Miri Llwyd enillodd y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth unawd sioe gerdd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.**

# Cyngor Cymuned **Geneur Glyn**

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor:** cyngorcymunedgeneurglyn communitycouncil.wordpress.com

**Dyddiad y Cyfarfod**: 19.05.2025 yn Ysgoldy Bethlehem, Derbyniwyd 1 ymddiheuriad. 0 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.
**Trafodwyd**: Enwebwyd Sue Davies fel cadeirydd am y flwyddyn 2025-2026. Diolchwyd i Pete James am ei holl waith fel Cadeirydd 2024-2025.
**Parc / Cyrtiau Tenis**: Ail-agorwyd y cyrtiau tenis yn swyddogol gan Ben Lake AS ar 18.05.2025. Diolchwyd i bawb oedd ynghlwm â'r prosiect.

**Cytunwyd ar roddion ariannol i**:
Cylch Meithrin Rhydypennau
Pwyllgor yr Henoed
Gerddi Llandre
Treftadaeth Llandre
Mynwent y Garn
Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn
Y Tincer

**Diweddariad gan y Cynghorydd Sir**: Trafodwyd Gwasanaethau Ysbyty Bron-glais. Adolygu Ysgolion.
**Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 07.07.2025 yn Ysgoldy Bethlehem am 7.00yh.
Pauline Lucas: clercgeneurglyn@yahoo.com

## Dathlu 140 mlynedd

Ym mis Hydref byddwn yn dathlu 140 mlynedd ers adeiladu yr eglwys bresennol. Hoffem nodi'r achlysur trwy wneud casgliad o luniau yn dangos digwyddiadau a chymeriadau'r eglwys. Felly os oes gennych chi lun o briodas, bedydd, cymanfa neu unrhyw ddigwyddiad arall anfonwch neges at Ann Barlow (07957 332170) neu Mair England (07790 531039) neu ebost at eglwys.llandre@gmail.com Byddwn yn scanio unrhyw luniau gwreiddiol ac yn eu anfon yn ôl yn union.



# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Suliau Pen-llwyn**

*Mehefin*

15 10.00 – Mr. Raymond Davies
22 I'w drefnu
29 2.00 – Dr. Rhidian Griffiths

*Gorffennaf*

6 Hwyl Eglwys Bresbyteraidd Cymru i blant, ieuenctid a'r teulu cyfan yn Ysgubor Digwyddiadau, Fferm y Bargoed, Llwyncelyn, am 10.30 y bore. Bwffe i ddilyn (yn rhad i blant ac am y pris gostyngol o £5 i oedolion). Croeso i bob un.

**Brysiwch Wella**

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr. Eifion Thomas, Ty'n Cwm, da deall eich bod adre o'r Ysbyty erbyn hyn. Hefyd anfonwn ein cyfarchion cynnes at Mr. Alun Jenkins, (Pandy gynt) ar ôl ei anffawd diweddar. Hyderwn y byddwch eich dau yn teimlo lawer yn well yn fuan iawn.

**Dathliad arbennig**

Dymuniadau gorau, mis Gorffennaf, i Mr. Maldwyn James, Afallon fydd yn cyrraedd carreg filltir go arbennig yn ei hanes. Tybed a welwn Maldwyn yn rhan o'r Orsedd, fel arfer, yn Wrecsam eleni. Dymunwn, fel ardal, y cewch ben blwydd arbennig ymysg eich teulu annwyl, pob dymuniad da a phob bendith i'r dyfodol.

**Llwyddiannau yn Eisteddfod yr Urdd, Dur a Môr:**

Hyfryd oedd gweld Daniel Calan, yn beirniadu y Ddawns Clocsio i Ferched yn Eisteddfod yr Urdd ym Mharc Margam eleni. Mae Daniel wedi disgleirio yn y Ddawns Clocsio ers blynyddoedd bellach, ac yn llawn haeddu'r anrhydedd a ddaeth i'w ran.

Bu ei ddau frawd, Iestyn a Morus yn llwyddiannus hefyd, Iestyn yn cipio'r wobr gyntaf yn y Sioe Gerdd a Morus yn dilyn ei frawd Daniel a dod yn gyntaf wrth glocsio yn unigol a hefyd mewn partneriaeth.

Llongyfarchiadau hefyd i Osian Rhys Jones am gipio'r drydedd wobr wrth glocsio eto. Bu Adran Bro Taf yn llwyddiannus iawn eleni eto a'r bechgyn hyn yn rhan o'r llwyddiant.

Da iawn fechgyn roedd Mam-gu Enid a Mam-gu Heulwen wrth eu bodd yn eich gwylio yng nghlydwch eu haelwydydd.

Llongyfarchiadau hefyd i Adran Aberystwyth, ar ei llwyddiant hwythau yn Eisteddfod yr Urdd, mae sawl plentyn o gylchdaith y Tincer yn aelodau o'r Adran ac wrth eu bodd yn mynychu o wythnos i wythnos, diolch am roddi y cyfleoedd i'r ieuenctid hyn.

Llongyfarchiadau yn ogystal I Glwb Ffermwyr Ifanc Trisant ar ddod yn 4ydd yn Rali'r Sir yn Pen-parc yn ddiweddar. Mae nifer o aelodau'r clwb yn dod o ardal Pen-llwyn a'r cyffiniau.

Mae diddordeb pawb yn wahanol, mae rhai bechgyn a merched o'r ardal yn ymddiddori mewn chwarae pêl droed a rygbi. Llongyfarchiadau iddynt ar eu llwyddiant yn ystod y tymor.  Ymlaen bo'r nod.

**Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion**

Cynhaliwyd y Gymanfa Ganu eleni yng Nghapel y Morfa Aberystwyth ar y 18fed o Fai am 10 y bore a 5.30 yr hwyr. Llywydd y bore oedd y Parchg Eifion Roberts ac arweiniwyd gwasanaeth y plant yn ysbrydoledig gan Llio Penri. Lediwyd rhai o'r emynau gan y gwahanol ysgolon Sul a chafwyd canu gwych. Dr. Rhidian Griffiths oedd yn llywyddu yn yr hwyr a'r arweinydd gwadd oedd. Alwyn Evans. Cawsom eitemau hyfryd gan Gôr Meibion Aberystwyth dan arweinyddiaeth ddisgybledig Alwyn Evans. Roedd canu gwefreiddiol yn y ddwy oedfa gyda Mrs. Mary Morris yn cyfeilio yn ardderchog. Rydym yn ddiolchgar iawn i arweinyddion y rihyrsals am baratoi y cantorion ar gyfer y diwrnod, Mae cymaint mwy o bleser i'w gael pan yw y tonau a'r emynau yn wybyddus i bob un. Diolch I Miss Eleri James am ei holl waith fel Ysgrifennydd y Pwyllgor. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at Gymanfa 2026.

**Gwaith Margaret Jones**

Cyhoeddwyd cyfrol chwedlonol Margaret Jones o Y Mabinogi ym 1984 ac ers hynny dylanwadodd ar ddwy neu dair cenhedlaeth o blant yng Nghymru a ledled y byd. Gwelir ei map eiconig o Y Mabinogi mewn cartrefi ar draws y wlad, ac mae wedi diffinio ein gweledigaeth o Branwen a Blodeuwedd, tra bod ei llyfrau wedi portreadu arwyr mytholegol, Arthur, Glyndwr, Madoc, Dafydd ap Gwilym, Twm Sion Cati a Dewi Sant. Gwelwn ein chwedloniaeth a'n chwedlau gwerin trwy lygaid Margaret.

Bydd digwyddiad – fydd trwy gyfrwng y Saesneg - yn y Llyfrgell Genedlathol dydd Gwener 20 Mehefin am 5.00 pan fydd modd ymuno â mab Margaret, Mark Jones, a'r darlunwyr llyfrau Peter Stevenson a Valériane Leblond, i glywed am ei bywyd cartref, ei gwaith mewn cyd-destun rhyngwladol, a gwerthusiad o lyfrau plant heddiw.

Bydd y digwyddiad hefyd yn dathlu lansiad *Margaret Jones and the Art of Visual Storytelling*, y llyfr darluniau newydd gan Peter wedi'i gyhoeddi gan Sefydliad H'MM; a bydd rhai o'r 200 o ddarluniau wedi'u rhoi i'r Llyfrgell yn ddiweddar yn cael eu harddangos, gan gynnwys y llun pensil gwreiddiol o fap y Mabinogi sy'n dangos manylder rhyfeddol ei dulliau gweithio. Mae'n ddigwyddiad trwy docyn ( am ddim) sydd ar gael o Ticketsource neu o LLGC.



**Ennill ifanc**

Elsi Wynn yn ennill y ras beicio mynydd o dan 6, yn rownd 3, cyfres Beicio Cymru yn Llanfair-ym-Muallt ddechrau Mehefin.



## Athletwyr Ifanc

Llongyfarchiadau cynnes i Morgan Lewis am ennill y gynghrair a'r cwpan gyda thim pêl-droed Llanilar, yr Ystwyth Bears, ac hefyd i Iestyn Lewis am gyrraedd y rownd derfynol yn y cwpan gyda thîm pêl-droed Aberystwyth. Bu i Iestyn hefyd gynrychioli Ysgol Penweddig mewn ras 200 medr athletau Ceredigion lawr ar drac Caerfyrddin, lle daeth yn 1af. Aeth ymlaen i gynrychioli'r Sir ym mhencampwriaeth Athletau Dyfed a llwyddo i ddod yn 2il agos iawn. Daliwch ati fechgyn, gwych.

## Cylch Meithrin Pen-llwyn

Gweithgareddau - gwaith coed, ewyn, peintio, a mynd am dro.









# Goginan

**Proms yn y Cae**

Dyma ddathliad sydd nawr yn cael ei chynnal yn flynyddol ar gaeau Cymdeithas Goginan. Roedd unwaith eto yn ddiwrnod bendigedig a chynulleidfa dda wedi yngynnull i fwynhau y tywydd a'r wledd o ddifyrwch gafwyd gan y diddanwyr o Bedwarawd Llinynnau, Cymdeithas Opera Aber, Meibion y Mynydd a Sgarmes. Mae pwyllgor y gymdeithas yn darparu lluniaeth felly yn dangos croeso cynnes i bawb.Mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal er mwyn codi pres at elusennau. Y ddwy elusen fydd yn cael elwa eleni fydd HAHAV a'r Bad Achub. Cawn wybod eto faint fydd y swm terfynol gan fod hefyd Naid Awyr yn cael ei chynnal ym mis Medi at HAHAV.









# Aber-ffrwd

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymeimlad dwysaf â teulu Troedrhiwceir ar farwolaeth Mair gweddw y diweddar Henry Rhydtir. Yn frodor o Bren-teg, ger Porthmadog, bu Henry a Mair yn byw yn Nhŷ Capel Aber-ffrwd cyn symud i Benrhyn-coch. Roedd Mair yn aelod ffyddlon o Gapel Aber-ffrwd ac yna yn Llwyn-y-groes. Meddyliwn hefyd am ei merch Ellen a'i theulu, ac â'i chwawr Megan ym Mhenrhyndeudraeth a'i theulu. Cynhelir yr angladd yng Nghapel Pen-llwyn dydd Mercher 25 Mehefin am 2.00, gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Pen-llwyn, Capel Bangor ddydd Mercher, Mehefin 25ain am 2 y pnawn ac i ddilyn ym mynwent Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch. Derbynnir rhoddion yn ddiolchgar, pe dymunir, tuag at Ymchwil Cancr trwy law Selwyn Evans.

**Eisteddfod yr Urdd**

Hyfryd oedd gweld plant Ysgol Pen-llwyn yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Mor. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd.

Probert Williams
eye care
Eich optegwyr annibynnol lleol
Archwiliadau GIG a phreifat
Sbectol a sbectol haul
Lensys cyffwrdd
Gofal llygaid brys
Llygaid sych
15 Stryd y Popty,
Aberystwyth
**01970 611555**
www.probertandwilliams.co.uk
OPTICIAN AWARDS
ZEISS
Cymraeg



# Bow Street

**Suliau'r Garn**

*Mehefin*
22 Peter Thomas
29 Wyn Morris

*Gorffennaf*
6 John Tudno Williams
13 Rhidian Griffiths
20 I'w drefnu
27 Ifan Mason Davies

*Awst*
Dim oedfaon

*Medi*
7 Rhidian Griffiths

**Noddfa**

*Mehefin*
29 Karen Owen

*Gorffennaf*
6 Uno yn y Garn
13 Pererindod
20 Gareth William Jones
27 Richard Lewis

*Awst*
Dim Oedfaon

*Medi*
7 Uno yn y Garn
14 Richard Lewis – Cymundeb
21 Cyfeillach
28 Richard Lewis


Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
9.00-4.30
Sul: Ar gau
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau


YTincer@googlemail.com

**Y Garn ym mis Mai**

Mr Lyndon Lloyd, Beulah, fu'n arwain ein gwasanaeth fore Sul cyntaf mis Mai. Yn ôl eu harfer bu Cymdeithas y Chwiorydd yn cwrdd ar brynhawn Mercher cyntaf y mis ym mwyty Crefftau Pennau i drafod eu gweithgareddau dros baned. Y Sul canlynol bu aelodau'r Garn a Noddfa yn cyd-ddathlu Sul Cymorth Cristnogol yn ein haddoliad ac mewn cinio bara a chaws yn y festri wedi hynny. Yn dilyn casgliadau'r wythnos yma anfonwyd £332 at gronfa Myanmar, a £350 at gronfa gyffredinol Cymorth Cristnogol. Ar Fai'r 18fed roedd hi'n Sul y Gymanfa Ganu, a gynhaliwyd yng Nghapel y Morfa. Mrs Llio Penri o Gapel y Garn fu'n arwain y plant yn y bore, gyda'r Parchg Eifion Roberts yn Llywyddu a Mrs Mary Jones Morris wrth y piano; Mr Alwyn Evans o Fachynlleth arweiniodd yr Oedolion yn y prynhawn gyda Dr Rhidian Griffiths yn llywyddu a Mrs Mary Jones Morris wrth yr organ. Ar Sul olaf y mis, oherwydd absenoldeb Mrs Delyth Morgans Phillips, cymerodd aelodau'r Garn rannau agoriadol y Gwasanaeth cyn clywed neges berthnasol gan y Parchg Ddr Elwyn Richards dros y we.

**Merched y Wawr Rhydypennau**

Ar y 12fed o Fai cawsom ein cyfarfod blynyddol pryd cafwyd llawer o drafod a threfnu gan ethol swyddogion newydd i'r tymor newydd. Gwnaed trefniadau i'r trip blynyddol mis Mehefin pan fyddwn yn mynd i Lambed at Gareth Richards y cogydd.

Clowyd y noson efo paned a danteithion blasus wedi eu paratoi gan y pwyllgor. Tymor arall wedi dod i ben!



## Grŵp Cerdded Rhydypennau

Themau grŵp cerdded Rhydypennau y tymor hyn yw cynefin. Dydd Mawrth 20fed roedd y grŵp yng ngofal dwy chwaer o Bow Street sef Margaret Evans a Jean Davies. Tywysodd y ddwy ni ar daith o rhyw 5 milltir o gwmpas ardal Ystrad Fflur ac heibio adfeilion hen ffermydd lle magwyd ei cyn deidiau.

Wedi dychwelyd i Ystrad Fflur cafwyd cyfle i ddringo i weld cerflun y Pererin cyn disgyn yn ôl i gael paned haeddianol yn 'Beiudy' yr abaty. Tynnwyd y llun ti fas i Fferm Frongoch lle oedd hen teulu Margaret a Jean yn arfer ffermio.



**Datganiad organ**

Cynhelir datganiad ar yr Organ gan David Evans, Bow Street yng Nghapel y Garn am 7 o'r gloch nos Wener Gorffennaf 4. Mynediad am ddim. Casgliad tuag at Apêl Manipur.

**Ŵyr arall**

Llongyfarchiadau i Elgan a Menna Davies, Maes Afallen, ar ddod yn fam-gu a thad-cu unwaith eto. Ganed Ifan Llŷr i Gwion a Sara yn Llanilar. Brawd bach i Guto.

## Clwb Gwawr y Pennau

Llongyfarchiadau i Glwb Gwawr y Pennau enillodd Dlws Mair Penri am y sgetsh orau yng Ngŵyl Haf Merched y Wawr ar 17 Mai ym Machynlleth.



**Marwolaeth**
Bu farw Mati Jones, Glan Nant, yng nghartref Plas y Cwm bore 14 Mehefin. Mam Iolo a Non a chwaer i Erddyn James, Talgwynion. Cydymdeimlwn â'r teulu.

**Urddo i'r orsedd**
Llongyfarchadau i Gareth William Jones, Hafle, fydd yn cael ei urddo i'r orsedd yn Wrecsam fis Awst. Fe'i hanrhydeddir am oes o wasanaeth clodwiw i fyd addysg, fel athro drama, swyddog gweithgareddau diwylliannol gwasanaeth Llyfrgell Dyfed, a darlithio yn Adran Gymraeg Coleg y Drindod, Caerfyrddin. Ysgrifennodd ddeg o nofelau i blant. Bu hefyd yn arwain cwmni drama llewyrchus lleol am flynyddoedd. Ers ymddeol, mae wedi ymroi'n wirfoddol a diflino i gymdeithasau a mudiadau llenyddol a diwylliannol Gogledd Ceredigion ac i'r *Tincer.* Gwerthfawrogir ei gyfraniad a'i weithgarwch gan ystod eang o oedrannau; mae'n hybu sawl agwedd ar y Gymraeg a Chymreictod yn lleol ac yn genedlaethol.



**Bedydd**
Mewn gwasanaeth yn Noddfa ar Fai 11 bedyddiwyd Tomos Ieuan Edwards, mab Llinos ac Andrew o Cemaes - Llinos gynt o Bryncastell, Bow Street. Roedd y gwasanaeth yng ngofal Y Parchg Richard Lewis. Rhoddwyd y casgliad i Cymorth Cristnogol.



Bobi-Jo a Leisi Myrddin yn cystadlu ar y ddeuawd cerdd dant ym Margam



**Caryl Ebenezer yn derbyn gwobr yng Ngŵyl Cyfryngau Celtaidd Newquay Cernyw 2025 am ei rhaglen ar Siân Phillips.**


**DIGIDA**

**Cyrsiau arlein i fusnesau, mudiadau ac unigolion.**
**Cyrsiau arlein byr, adnoddau, cymuned a digwyddiadau byw.**
**Rhowch hwb i'ch marchnata digidol.**

**Gwefannau**
WordPress, Optimeiddio Peiriannau Gwe, Google Analytics

**Cyfryngau Cymdeithasol**
Facebook, Instagram, TikTok

**Marchnata**
Strategaeth Marchnata Digidol, Blogio a mwy.

Gyda mwy o gyrsiau yn cael ei ychwanegu yn rheolaidd.

ARFOR CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH | Gwe Cambrian Web | digida.cymru @digidacymru

**R.J Edwards a'i Fab**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân

01970 820149


**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**

**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
**e-bost:** mynachhandyman @yahoo.com

**Gwe Cambrian Web**
Cwmni lleol o Aberystwyth sydd yn creu gwefannau dwyieithog a gwasanaethau marchnata digidol ar gyfer busnesau bach a mudiadau.

Cysylltwch heddiw!




Gwe Cambrian Web
cambrianweb.com | 01970 623 906 | info@cambrianweb.com | @gwecambrianweb

**inc**
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**

13 Stryd y Bont, Aberystwyth
**01970 626 200**

# Y Borth

**Y Prif Weinidog yn y pentref**

Daeth Prif Weinidog Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i'r Borth ar ddydd Iau 5 Mehefin i drafod newid hinsawdd a chlywed am brosiectau ynni adnewyddadwy lleol. Daeth grwpiau a chynrychiolwyr lleol i gwrdd ag Eluned Morgan a Derek Walker ac i drafod sut i sbarduno gweithredu cymunedol sy'n helpu i arafu'r newid yn yr hinsawdd. Cynhaliwyd y cyfarfod yng nghanolfan Seren y Môr sy'n cael ei hystyried yn ddatblygiad cynaliadwy dan ofal cymunedol.



Mae paneli solar ar do'r ganolfan ac fe gafodd y prosiect gymorth technegol a chyllid grant trwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, gan alluogi'r lleoliad i gynhyrchu trydan glân nid yn unig ar gyfer y ganolfan ond ar gyfer y feddygfa gyfagos hefyd. Yn dilyn yr ymweliad, dywedodd Eluned Morgan:

"Mae'r hyn ry'n ni wedi'i weld yn y Borth heddiw yn dangos yn union sut y gall cymunedau ledled Cymru weithredu ar newid hinsawdd a thrwy hynny arwain y ffordd yn y maes. Mae'r prosiectau ynni adnewyddadwy lleol hyn nid yn unig yn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, maen nhw hefyd yn dod â chymunedau at ei gilydd ac yn torri costau i wasanaethau hanfodol.

"Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos ein bod ni wedi gweld cynnydd mewn sawl maes, ond mae llawer mwy i'w wneud. Drwy wrando ar gymunedau a chefnogi arloesedd lleol, gallwn ni adeiladu Cymru sy'n wirioneddol gweithio i genedlaethau'r dyfodol, gan wneud hynny ochr yn ochr â mynd i'r afael â heriau uniongyrchol fel costau byw ac argyfyngau hinsawdd."

Roedd yr ymweliad, a gynhaliwyd ar Ddiwrnod Amgylchedd y Byd, yn cynnwys trafodaethau gydag arweinwyr cymunedol lleol o Borth 2030, a chynrychiolwyr o Ynni Cymunedol Cymru, ynghylch ehangu prosiectau ynni sy'n eiddo i gymunedau ledled y wlad.

Mae'r Comisiynydd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddyblu ei thargedau ar gyfer cynhyrchu ynni cymunedol ac i ddarparu mwy o adnoddau i grwpiau lleol allu datblygu prosiectau adnewyddadwy.

Dywedodd Derek Walker:

"Mae adnoddau ynni lleol, sy'n eiddo i gymunedau ac sy'n cael eu rhedeg ganddyn nhw, yn hanfodol i helpu i ddatrys anghenion ynni Cymru yn y dyfodol. Mae'r prosiectau yn y Borth yn dangos sut mae dod ynghyd fel cymuned i weithredu ar newid hinsawdd yn helpu i wneud Cymru yn fwy gwydn o ran ei hynni, gan gefnogi gwasanaethau fel y GIG a chreu swyddi lleol. Roedd yn dda trafod gyda'r Prif Weinidog sut y gallai'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol ddarparu mwy o gymorth i gynlluniau fel hyn."

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Rheinallt Richards, Glanlerry a'r teulu, ar farwolaeth modryb – Llinos Morris yn Llundain.

## Cymorth Clyw




Mae Hwb Cymunedol y Borth yn cynnal sesiynau galw heibio arbennig ar gyfer pobl sydd angen cymorth gyda'u clyw. Dyma'r sesiynau cyntaf o'u bath i'w cynnal yn y rhan yma o Gymru ac maen nhw'n cael eu harwain gan staff yr RNID.

Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys:

- Glanhau a newid tiwbiau cymhorthion clyw'r Gwasnaeth Iechyd (GIG)
- Batris cymhorthion clyw GIG newydd, am ddim
- Archwiliadau clyw am ddim
- Paru cymhorthion clyw GIG ag apiau ffôn symudol
- Gwybodaeth am ddyfeisiau a thechnoleg gynorthwyol
- Mynediad at gymorth a gwasanaethau lleol yn eich ardal
- Gwybodaeth am reoli colli clyw a thinitws
- Awgrymiadau a chyngor ar gyfathrebu



Cynhelir y sesiynau ar y ail ddydd Llun yn y mis rhwng 1yp a 3yp. Bydd te a chacen hefyd ar gael i'r sawl sy'n galw heibio.

## Dathlu Gwirfoddolwyr

Fel rhan o Wythnos Gwirfoddolwyr 2025, bu'r Hwb Cymunedol yn dathlu cyfraniad pobl leol sy'n rhoi o'u hamser a'u hegni i helpu'r ganolfan.

P'un ai'n gwneud paned o de, golchi brwshys paent, arwain teithiau cerdded neu'n ymgymryd â rôl ymddiriedolwr, mae gwirfoddolwyr yn gwneud gwahaniaeth mawr.

Os oes gennych ddiddordeb gwirfoddoli yn yr Hwb, anfonwch e-bost at amanda@borthcommunityhub.co.uk.






**Ffordd Ar Gau**

Bydd rhan o'r ffordd drwy'r pentref ar gau rhwng 8yb a 5yp o ddydd Mawrth 1 Gorffennaf hyd ddydd Iau 4 Gorffennaf wrth i waith ar systemau trydan fynd rhagddo. O'r herwydd ni fydd modd gyrru rhwng y feddygfa a'r hen gapel Wesleaidd yng nghanol y pentref. Mae'n golygu na fydd y bws yn gallu mynd i Ynys-las yn ystod y cyfnod yma a bydd yn gadael o Heol Aberwennol a'r arhosfan bws ger gorsaf y bad achub yn unig.

**Sgwrs radio**

Braf oedd clywed Hanna Prytherch ar y radio yn trafod adolygiad gwariant y Canghellor. Mae Hanna yn ymgymghorydd polisi gyda chwmni Flint Global yn Llundain ers dwy flynedd ond bydd yn cychwyn ar swydd newydd yn fuan ym maes polisi darlledu gydag Ofcom. (Gol)



**Graddio yn UDA**

Llongyfarchiadau mawr i Dion Ellis-Clark o'r Borth ar gyflawni ei Radd Meistr mewn Rheolaeth Chwaraeon a Chyllid ym Mhrifysgol William Penn yn Oskaloosa, Iowa, UDA. Mae Dion bellach wedi symud i Academi Pêl-droed El Dorada Hills yn Sacramento i wneud hyfforddiant pêl-droed. Roedd ei rieni Yvette a Tim wedi teithio i Iowa ar gyfer yr achlysur arbennig.


# Yr Hydref ym Mis Mawrth, Ebrill a Mai

Mae bron i dri mis nawr ers i mi ac Eleanor ddod yn ôl i'r Ariannin, ac mae'r wythnosau'n prysur hedfan. Mae Eleanor wedi setlo'n dda ym mlwyddyn 2 yn Ysgol y Cwm ac mae hi wedi cael ailafael ar rugldder ei Sbaeneg yn ddi-drafferth. Mae hi hefyd yn mwynhau dysgu darllen ac ysgrifennu *cursivo,* sef llawysgrifen ddwbl. Mae hi wrth ei bodd yn cael gwersi cerddoriaeth yn yr ysgol a'r cyfle i chwarae'r delyn, yr ukelele, a chanu mewn côr. Mae'n mwynhau gwersi celf yn fawr iawn a dysgu technegau lliwio a pheintio gyda'i hathro celf. Mae hi hefyd yn mwynhau'r amrywiaeth o gemau a'r gweithgareddau ymarfer corff sy'n cael eu cynnig gan yr athro ymarfer corff yn yr ysgol ac yn y gymuned. Dw i'n hoff iawn o'r ffordd mae'r athrawon yn cydweithio a sut maen nhw'n medru cynnig eu harbenigedd i'r cwricwlwm a sut mae'r plant yn elwa o hyn.

Mae bron i fis wedi mynd heibio ers Eisteddfod Trevelin lle cawsom ni hwyl garw yn gwylio ac yn cymryd rhan yn y cystadlu. Dathlu hunaniaeth a diwylliant Cymraeg ydy nod yr Eisteddfod yma, ond mae cystadlaethau iaith Sbaeneg a Chymraeg yn cael eu trefnu ochr yn ochr â'i gilydd. Roeddwn i wrth fy modd yn gweld Eleanor yn adrodd ac yn canu mewn Sbaeneg yn ogystal ag yn y Gymraeg, ac yn cael modd i fyw. Roedd cyfnod yr Eisteddfod yn un braf iawn i mi ac Eleanor am reswm arall oherwydd daeth Anna fy modryb i aros gyda ni dros y cyfnod yma. Pan mae rhywun yn byw mewn gwlad dramor, mae cael teulu neu ffrindiau agos yn dod i aros yn amser i'w drysori. Mi wnaethon ni dreulio tipyn o amser yn chwerthin am yr heriau a'r digwyddiadau doniol, beunyddiol ac annisgwyl sy'n codi wrth deithio. Gwnaethom yn fawr o gwmni ein gilydd. Bydda i ac Eleanor yn croesi'r paith ddiwedd mis Mehefin ar gyfer Eisteddfod Mimosa ym Mhorth Madryn a 'dyn ni'n edrych ymlaen i weld Anna eto a hefyd i weld hen ffrindiau yn y Gaiman.

Yn y cyfamser 'dyn ni'n mwynhau diwedd y dyddiau o dywydd mwyn yr hydref a cherdded gyda'r dail lliwgar o dan ein traed i bob math o ymarferion a gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn Nrhevelin ac Esquel. Mae ymarferion Eleanor ar gyfer ei sioe ddawns *El Señor de Los Anillos (The Lord of The Rings)* yn cael eu cynnal mewn stiwdio mewn coedwig fach hardd. Alla i ddim meddwl am le gwell i osod ymarferion er mwyn i'r plant gael ymgolli ym myd eu cymeriadau. Mae'r eira i'w weld yn glir ar gopa'r mynyddoedd o'n cwmpas ac mae'r gaeaf yn nesáu. 'Dyn ni'n lwcus ac yn ddiolchgar iawn i gael bod yma.

**Lleucu Haf**





SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

ADWEITHEG
Bethan Ifan
Aberystwyth
07375422608
Tocynnau rhodd ar gael

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

## Cyngor Cymuned **Melindwr**

**Adroddiad Pwyllgor Mai 2025**
Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Mai 15 yn Neuadd Penllwyn Capel Bangor. Roedd y Cynghorydd Sir Rhodri Davies, y cadeirydd, y clerc, 6 cynghorydd cymuned, aelod o'r cyhoedd a cyfiethydd yn bresennol.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol i ddechrau.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod blynyddol 2024 fel rhai cywir. Diolchodd y cadeirydd Sarah Hughes i'r cynghorwyr a'r Cynghorydd Sir am y gefnogaeth a rhoddodd grynodeb o'r gweithgareddau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Yn ei adroddiad dywedodd y Cynghorydd Sir ei fod yn parhau i weithio efo Cyngor Sir Ceredigion er budd Ward Melindwr a diolchodd i'r swyddogion a'r cynghorwyr am eu gwaith yn ystod y flwyddyn.

Swyddogion 2025/2026.

Cadeirydd – Tom Holt. Clerc – Lynne B Davies.

Cafwyd trafodaeth am y broblem sbwriel yn yr ardal a chytunwyd bod angen trefnu casglu sbwriel ac awgrymwyd cael rota misol efo'r cyntaf ar ddydd Sadwrn Mehefin 3ydd.

Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol cafwyd y pwyllgor misol.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Ebrill fel rhai cywir.

Trafodwyd.

Asedau Ward Melindwr.

Bin baw cŵn – Cael bin baw cŵn ger Dolypandy.

Cyflymder traffig trwy y pentref.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau Mehefin 19 am 7.30yh yn Neuadd Penllwyn Capel Bangor.

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r MRCPod

# Colofn Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

**Catrin Pugh Jones**

**Ymweliad Clwb Golff Woodenbridge**
Roedd yr haul yn gwenu'n braf ar gyfer ymweliad aelodau Woodenbridge, ein gefaill glwb o Iwerddon. Teithiodd 21 o ddynion draw i Gymru gan alw heibio Clwb Golff Harlech i chwarae rownd ar eu ffordd lawr i'r Borth. Chwaraewyd cystadleuaeth gyfeillgar llawn hwyl a sbri ddydd Gwener gyda barbeciw i ddilyn. Ar ddydd Sadwrn cafwyd cystadleuaeth 4BBB rhwng y ddau glwb ar gyfer Y Cwpan Celtaidd gydag 11 o gemau. Enillwyr y dydd oedd Clwb Y Borth o chwech a hanner pwynt i bedwar a hanner pwynt. Dyma'r tro cyntaf i'r Borth ennill yn erbyn Woodenbrigde ers 2007 felly roedd yna ddigon o ddathlu i ddilyn. Gorffennwyd y noson gyda chinio ardderchog, cymdeithasu hwyliog a digon o craic. Diolch Woodenbridge am eich cyfeillgarwch dros y blynyddoedd.











**Gwobrau Adran y Menywod**
Cynhaliodd y Capten Helen Lewis ddigwyddiad gwobrwyo i ddathlu enillwyr y cystadlaethau diweddar. Dyma'r canlyniadau:

Tlws Wilding – Stableford
1af – Jean Harrison – 38 pwynt
2ail – Catrin Pugh Jones – 37 pwynt
3ydd – Barbara Reece – 33pwynt

Tlws Griffiths - Medal
1af - Karen Evans net 70
2ail - Kay Thomas net 72
3ydd - Margaret Roberts net 73

Cwpan Edith Beddard - Stableford
1af – Clare Jones – 35 pwynt
2ail – Karen Evans – 32 pwynt
3ydd – Jean Harrison – 32 pwynt

Tarian Beryl Roberts – Medal
1af – Laura Perkins – nett 70
2ail – Clare Jones – nett 70
3ydd – Karen Evans – nett 73

# Ysgol **Penweddig**




Modlen Gwynne – Chwaraewraig cystadleuaeth y plât



Llongyfarchiadau i Jac Myrddin, Bl 8 Penweddig, fu'n chwaeae i dîm hoci Gogledd Cymru yn erbyn De Cymru ar 15 Mehefin. Sgorio gôl a hawlio gêm. Byy hefyd yn cynrychioli Gogledd Cymru ym mhencampwriaeth rhanbarthol bechgyn dan 13 yn Nottingham penwythnos 22 Mehefin.




Merched Bl. 12 a 13. Enillwyr y Plât 7 bob ochr yr Urdd


**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**

**BRIDGE HOUSE CLEARANCE**

Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816/01974 261758










**WEST WALES ANTIQUES CAPEL BANGOR**

Ydych chi angen gwerthu hen bethau, neu efallai angen gwacâu tŷ?
• Dodrefn • Arwyddion Enamel • Tacsidermi • Peintiadau • Cerflunwaith a Dodrefn Ardd • Hysbysebion • Carthenni • unrhywbeth hen neu anarferol!

Prynwr a Gwerthwr Hen Bethau

www.west-walesantiques.co.uk 07866 005996 dryburghantiques@gmail.com


**GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS**

Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

**James Memorials**

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

james.memorials@btconnect.com

# Ysgol **Rhydypennau**







**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i'r plant fu'n cynrychioli'r ysgol ym Mharc Margam dros yr hanner tymor. Pleser o'r mwyaf oedd eu gweld ar lwyfan y pafiliwn yn perfformio mor arbennig. Llongyfarchiadau mawr i Greta Mitchell yng nghystadleuaeth Unawd Blwyddyn 2 ac Iau; i Leisi a Bobi Jo Myrddin yng nghystadleuaeth Deuawd Cerdd Dant Blwyddyn 6 ac Iau; i aelodau'r Parti Cerdd Dant blwyddyn 6 ac iau ac i aelodau'r Parti Unsain blwyddyn 6 ac iau. Diolch yn fawr iawn i bawb am yr ymdrech ac am yr ymroddiad dros yr wythnosau diwethaf. Campus!

Hoffai'r ysgol ddiolch yn arbennig i Ms Eleri Roberts am ei harweiniad gyda'r Parti Cerdd dant eleni eto. Rydym yn gwerthfawrogi'r cymorth yn fawr iawn.

**Digwyddiadau a Gweithgareddau**
Mae prysurdeb tymor olaf y flwyddyn yn parhau.
Yn ystod mis Mai, treuliodd plant blynyddoedd 3 a 4 fore difyr ar fferm Peithyll. Cafodd y plant eu tywys o gwmpas y fferm ddefaid gan ddysgu rhagor o wybodaeth am thema'r dosbarth sef 'O'r Fferm i'r Fforc'. Diolch yn fawr i Dewi, Lowri a Lois am fore hynod o ddiddorol.

Diolch yn fawr iawn i Phil 'Y Vet' Thomas am ddod i mewn i ddosbarthiadau'r Meithrin a'r Derbyn er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant sut i ofalu am anifeiliaid.

Dilynwyd hyn gan ymweliad o ffatri fêl Wainwright's ar ddiwrnod 'Gwenyn y Byd'. Diolch i Lewis a Dawn am y negeseuon pwysig.

**Ffarwelio**
Yn anffodus, bu'n rhaid ffarwelio â dwy aelod gwerthfawr iawn o'n tîm. Mae Mrs Kim James, sydd wedi gwasanaethu'r ysgol ers degawd bellach a Mrs Sara Jenkins, athrawes Blwyddyn 6 dros y flwyddyn diwethaf bellach yn ein gadael ni.
Rydym yn gwerthfawrogi ymroddiad cydwybodol y ddwy ac yn dymuno'n dda iddynt i'r dyfodol.

Mi fyddwn ni'n cynnal ein Garddwest eleni ar y 26ain o Fehefin o 5:00yp tan 7:00yh. Croeso mawr i bawb!

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar









COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580





# Ysgol **Craig yr Wylfa**

## YSGOL Y GYMUNED

### Ymweliad Arbennig

Yn ystod mis Mai mae'r ysgol wedi bod yn brysur iawn yn y gymuned. Un o'r uchafbwyntiau oedd cael ymweliad gan Pawlie Bryant, brodor o Unol Daleithiau'r America. Mae Paulie wedi bod yn ymwelydd cyson â Chymru dros y blynyddoedd diwethaf ac mae wedi dysgu Cymraeg yn wych. Eleni, yr oedd yn ymweld ag ysgolion Ceredigion oedd dan fygythiad o gau, er mwyn ysgrifennu erthygl. Gallwch ddarllen yr erthygl yng Nghylchgrawn *Lingo 360*. Dyma ran o'r erthygl, "*Roedd yn fraint ac yn anrhydedd i gael blas o'n hysgolion gwledig yn y cnawd. Ym mhob un, ces i fy swyno gan y lle ei hun, a sgil a charedigrwydd y staff. Gan chwarae rôl ganolog yn eu cymunedau a sicrhau bod y plant yn ddwyieithog rhugl, nhw yw ein dyfodol*".

### Ymweliad Arbennig Arall!

Yn dilyn llwyddiant anhygoel y daith gerdded noddedig, cawsom wybod bod grŵp o ffrindiau'r ysgol wedi penderfynu dysgu dawns newydd i'w pherfformio mewn gwahanol ddigwyddiadau yn y pentref er mwyn codi arian i'r ysgol. Daeth y criw atom ar brynhawn hyfryd o haf i berfformio'r ddawns i ni hefyd a chyflwyno swm anrhydeddus i'r ysgol. Y mae'r artist lleol Kasper Pryce wedi addo swm sylweddol hefyd yn sgîl gwerthiant o'i waith celf. Diolch o galon i chi gyd am gefnogi'r ysgol ac am fod mor hael.

### Marchnad y Ffermwyr

Mae Marchnad y Ffermwyr y Borth, sy'n cael ei chynnal yn wythnosol yn Seren y Môr, yn mynd o nerth i nerth. Felly roedd derbyn gwahoddiad i gynnal stondin llyfrau ail law yno yn dipyn o anrhydedd. Roedd ymateb y cwsmeriaid i'r plant yn wych ac roedden nhw wedi mwynhau'r profiad o werthu a marchnata'r ysgol yr un pryd. Rydym yn edrych ymlaen at fynd yno eto'n fuan. Diolch yn fawr i Kate am drefnu'r stondin ar ein cyfer.

### BorthFfest

Dros yr wythnosau diwethaf mae plant yr ysgol wedi bod yn ofnadwy o brysur yn paratoi gwaith ar gyfer arddangosfa o waith celf BorthFfest yn yr Hwb Cymunedol. Roedd ein gwaith eleni'n seiliedig ar adar ac roedd pawb wrth eu boddau'n creu ac arddangos y gwaith 2-D a 3-D.

### Hwb Cymunedol

Mae cysylltiad yr ysgol gyda'r Hwb Cymunedol wedi parhau dros y mis eto gydag ymweliadau cyson i gael gweithdai Celf ac roedd yr ysgol wedi ymuno gyda dathliadau diwrnod VE yn yr Hwb hefyd.

### Cystadleuaeth Bwgan Brain

Penderfynwyd defnyddio dwy stori fel sail i greu ein bwgan brain eleni. ET oedd testun bwgan brain dosbarth CA2 a'r lindysyn llwglyd iawn oedd testun bwgan brain y plant lleiaf. Roedd hi'n hyfryd i weld yr holl feirniaid yn galw heibio wrth i'r gystadleuaeth ddechrau. Llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr.





### Ysgol Eco

Dros yr wythnosau diwethaf mae'r plant wedi parhau i blannu llysiau fel rhan o'r Prosiect Cawl gyda Kate Fenhalls. Gobeithio bydd y cawl yn flasus pan fyddwn yn coginio yn Nhymor yr Hydref. Diolch yn fawr i Kate ac i bawb sydd wedi ein helpu.

### Ysgol Iach

Rydym yn ffodus o gael ymweliadau cyson gan PC Hannah. Y tro yma daeth i siarad gyda'r plant lleiaf am fod yn ofalus o gwmpas y pentref a gyda disgyblion Blwyddyn 6 am y perygl o ymddiried mewn pobol nad ydynt yn eu hadnabod. Roedd hi'n hyfryd gallu mynd draw i Ysgol Tal-y-bont ar gyfer y gweithgaredd yma fel rhan o Gynllun Pont yr Wylfa.

## YSGOL GREADIGOL

### Cynefin ar Gân

Efallai y cofiwch bod plant hŷn yr ysgol wedi cael cyfle i gyfansoddi a recordio cân gydag Arwel Rocet Jones yn gynharach yn y flwyddyn. Mae'r gân, Trwy Lygaid y Barcud, bellach ar gael i'w gwrando ar blatfformau fel Spotify – ewch i wrando arni! Y cam diwethaf yn y prosiect oedd ffilmio fideo i gyd-fyd gyda'r gân ac rydym yn edrych ymlaen at weld y lansiad cyn diwedd y tymor. Diolch yn fawr i Anwen Eleri, Swyddog Siarter Iaith Ceredigion, am drefnu'r holl brosiect.









### Clwb ar ôl Ysgol

Diolch yn fawr i'r holl staff am drefnu'r gweithgareddau amrywiol ar gyfer ein Clwb ar ôl Ysgol wythnosol ac am fod mor ofalgar o bawb. Mae'r Clwb yn boblogaidd iawn ac yn rhan bwysig o'n darpariaeth.

### Nodyn gan y Golygydd

Dyma adroddiad olaf Hefin Jones sydd yn ymddeol o'i swydd fel pennaeth Ysgolion Tal-y-bont a Chraig-yr-Wylfa y mis nesaf. Diolch iddo am ei gefnogaeth ar hyd y blynyddoedd a dymunwn yn dda iddo i'r dyfodol. Pob lwc gyda'r bennod newydd gyda Ymddiriedolaeth Pantyfedwen.

# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Cwis Llyfrau**

Fy enw i yw Kai. Cymerais ran mewn 'Bookslam' sef cwis am lyfr o'r enw: *The Ghosts of Craig Glas Castle* gan Michelle Briscombe.Roedd y llyfr amdano castell oedd wedi bod yn gwesty am cwpwl o flynyddoedd. Roedd yna ddau blentyn o'r enw Archie a Flora, a dad yr ddau, sef Horace Theodore. Pwrpas yr ymweliad oedd i gael hynafolion a mynd a nhw i'r tŷ. Ond, mae y plant yn darganfod ysbrydion! Os oes diddordeb gennych I ddarllen mwy dyma'r rhif ISBN: 978-1-915439-30-7. Rydyn ni (Harry, Milly, Evie, Alisha, Ellis a Kai Jakubek [Fi!]) wedi ennill 1af yng NGHEREDIGION yn y Cwis Llyfrau! Bendigedig, os wyt ti'n gofyn i mi! Diolch am ddarllen. Gan Kai.

**Cyn-ddisgybl**

Hyfryd oedd derbyn anrheg - prosiect gwaith coed ysgol gan gyn-ddisgybl. Mae'r plant wedi mwynhau defnyddio'r gêm yn barod. Diolch yn fawr Cayden.

**Garddio**

Wedi'r holl waith ar dir yr ysgol mae'r plant wrth eu boddau yn dyfrio, chwynnu, plannu a phalu wrth gwrs! Rydym yn edrych ymlaen at weld yr holl dyfiant gan obetihio bydd enfys o liwiau i weld ac amrywiaeth o lysiau i fwyta!

**Miss Edwards**

Llongyfarchiadau enfawr ar enedigaeth merch fach ar ddechrau mis Mehefin. Llongyfarchiadau mawr i'r teulu cyfan a chroeso mawr i Alys Nanw Meredydd. Edrychwn ymlaen at gwtsh pan fydd Alys fach yn barod i gwrdd â ni.

**Eisteddfod Yr Urdd 2025**

Braf yw dathlu ein llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Llongyfarchiadau mawr i'r criw fu wrthi gyda'r celf a chrefft eleni. Fe wnaethant yn dda iawn yn rhanbarthol:



Dosbarth Drudwy (Dosbarth 2 - Bl. 1 a 2)
1af – Grŵp Drudwy (Alaw, Ania, Leisia a Nanw) = 263.Gwaith 3D Bl. 6 ac iau (grŵp)
3ydd – Macs = 274. Uwchgylchu Bl 2 ac iau
Dosbarth Barcutiaid Coch (Dosbarth 3 – Bl 3 a 4)
3ydd – Teulu Dosbarth 3 (Gwern, Joshua, Math a Phoebe) = 241. Tecstiliau Creadigol Bl. 6 ac iau (grŵp)
Dosbarth Y Drywod (Dosbarth 4 – Bl 5 a 6)
3ydd – Y Tri Mochyn Bach (Florence, Iona a Mabli) = 193. Creadigol 2D Bl. 6 ac iau (grŵp)
3ydd – Y Blobiau (Elen, Gwenno a Poppy) = 251. Ffasiwn Bl. 6 ac iau (grŵp)
Diolch I Mrs. Lynwen Jenkins a Miss. Gwenan Jenkins am ein helpu.
Dyluniodd a chodiodd Alife, gêm drysfa arbennig lle mae Mr. Urdd yn teithio o Langrannog i Glan-llyn. Crëwyd y gêm gan ddefnyddio meddalwedd codio syml, gan ganiatáu i'r chwaraewr reoli Mr. Urdd trwy gyfres o lwybrau troellog a trapiau. Mwynhaodd llawer o blant yn yr ysgol chwarae gêm Alfie yn fawr iawn. Da iawn Alfie! Diolch i Mr. Jones am ei helpu.

**Bookslam**

Llongyfarchiadau i griw Bookslam. Clywon ni cyn gwyliau hanner tymor eu bod nhw wedi dod yn fuddugol yng Ngheredigion!! Maent wedi darllen *'The Ghosts of Craig-Glas Castle'* sawl gwaith erbyn hyn ac yn medru trafod y themau, lleoliad a'r cymeriadau mewn ffordd aeddfed iawn. Diolch yn fawr i Francesca o Gyngor Llyfrau Cymru am feirniadu.










*Cyfarwyddwyr Angladdau*
***C. T. Evans***

***Perchnogion : Gwyn & Janet Evans***
***Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS***

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Ddydd a Nôs.*

***Ffôn 01970 820013***
***ebost : gwyn@ ct-evans.com***

Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim

TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC

01970 828 992

# Ysgol **Pen-llwyn**

**Gweithdy Awdur - Sgwad Sgwennu**
Yn dilyn yr Ornest Lyfrau cawsom y cyfle i fynd i weithdy yn Felin-fach gyda'r awdur Gwennan Evans. Fe wnaethom ni weithio gyda'n gilydd i greu cymeriadau, dewis lleoliadau, llunio plot. Defnyddion ni'r wybodaeth hyn i ddechrau ysgrifennu nofel gydweithredol.

**Gweithdy ysgrifennu gyda Menna a Mared**
Yn dilyn y gweithdy yn Felin-fach daeth Menna a Mared o Cardi Iaith allan i'r ysgol i gynnal sesiwn sgwad sgwennu arall gyda ni. Gweithion ni gyda'n gilydd unwaith eto i ysgrifennu pennod ychwanegol ar gyfer ein nofel. Edrychwn ymlaen at ddarllen y nofel orffenedig!

**Cycle with CCC BL5/6**
Ar ddechrau'r mis daeth aelodau o'r tîm diogelwch ffyrdd i gynnal sesiynau beicio gyda Bl.5 a 6. Yn gyntaf wnaethon ni gwblhau Lefel 1 ar iard yr ysgol. Dysgon ni am sut i gychwyn a stopio, manwfro, signalu a defnyddio'r gerau. Yna aethon ni am dro ar y ffordd tu fas yr ysgol i gwblhau Lefel 2. Dangoson nhw i ni sut i delio gyda traffig a cadw'n ddiogel ar y ffyrdd.

# **Llwyncoch** (Y ddwy ysgol)

**Ffilmio ar gyfer Cynefin ar gân**
Am brofiad gwych a gafodd Cymry i'r Carn Anest, Florence, Ryan a Megan wrth ffilmio ar gyfer y gân 'Trwy Lygaid Barcud' fel rhan o'r prosiect Cynefin ar Gân Siarter Iaith Ceredigion. Diolch i Arwel Roced am helpu cyfansoddi'r gerdd gyda disgyblion Cylch Aberystwyth ac i Mei Gwynedd am gyfansoddi'r gerddoriaeth. Gellir clywed y caneuon gwych a gyfansoddwyd gan blant Ceredigion ar blatfformau cerddoriaeth amrywiol.

**Trip Preswyl – Glan-Llyn 2025**
Ar yr ail of Fehefin 2025, aeth blwyddyn 5 a 6, Ysgol Penrhyn-coch ar drip preswyl i Wersyll yr Urdd Glan-llyn am dridiau. Roeddem ni wedi gwneud lot o weithgareddau fel adeiladu tân, cyfeiriannu, rhwyfo, canwio, saethyddiaeth, nofio, rhaffau uchel, disgo, gwylio ffilm, dyn adar ac adeiladu rafft. Cawsom lawer o hwyl yna a roedd pawb wedi mwynhau mas draw a gwlychu llawer! Roedd y bwyd yn fendigedig! Diolch i bawb yn y gwersyll am y croeso cynnes ac am edrych ar ein holau yn enwedig Braint, Siôn F, Caleb, Huw a staff y gegin. Diolch i Miss. Cory, Miss. Jones, Mr. Jones a Mrs. Evans am fynd gyda ni. Gobeithio gawn ni fynd eto! Gan Alisha.

**Criced 50/50**
Diolch i Mr Jones am fynd ag aelodau blwyddyn 3 a 4 i chwarae criced. Roedd hi'n ddiwrnod braf ar gaeau'r Ficerdy. Mwynheuodd y plant y profiad - braf gweld bod y gystadleuaeth wedi ysbrydoli'r plant i chwarae ar iard yr ysgol. Tro blwyddyn 5 a 6 fydd nesaf!

**Ffilmio fideo VR**
Diolch i Dr. Stephen Atherton, Dr. Panna Karlinger a Mr. Sanjay Dutta am gydweithio gyda ni ar ein prosiect VR. Fe wnaethon ni gynllunio a chreu sgriptiau ar gyfer creu taith VR o gwmpas yr ysgol. Mae pawb yn gyffrous i weld beth fydd y fideo VR gorffenedig yn edrych fel ar y diwedd.
Gan Alfie ac Archie.

**Wythnos Cerdded i'r ysgol**
Mi oedd y tywydd ar ein ochr yn ystod wythnos cerdded i'r ysgol, da iawn i bawb am ymdrechu i gerdded, beicio neu sgwtera i'r ysgol.

**Eisteddfod yr Urdd – Dur a Môr, Parc Margam**
Llongyfarchiadau i griw Dawnsio gwerin Ysgol Pen-llwyn am ddawnsio eu gorau glas ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol, profiad arbennig iddynt i gyd. Diolch Mrs Evans am roi'r profiad iddynt.
Llongyfarchiadau ENFAWR i'r disgyblion yma, Mabli, Iona, Lacey, Elena, Ffion, Florence, Anest, Gwenno, Moli, Ned, Leo a Kaede o Flwyddyn 5 a 6 sydd wedi ennill yng Nghystadleuaeth Gwaith Cartref Eisteddfod Genedlathol yr Urdd 2025 am Gywaith ar y thema Diwydiant. Ein prosiect Mwyngloddio. ARBENNIG!!

Llongyfarchiadau ENFAWR i Ned am ddod yn ail dros Gymru am gofnodi adolygiad ffilm yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. "Pan glywais i fy mod wedi dod yn 2il am ysgrifennu adolygiad ffilm am 'Home Alone' yn Eisteddfod yr Urdd 2025, roeddwn i yn teimlo yn hapus a chyffrous achos roeddwn i yn mynd i gael medal a mynd ar lwyfan o flaen lot o bobl." dywedodd Ned.

**Trawsgwlad yr Urdd**
Da iawn i Moli, Jack a Vinnie am gystadlu yn nhrawsgwlad yr Urdd eleni. Da iawn am gystadlu ar lefel cenedlaethol a gwneud mor dda!









# Tasg y Tincer

Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich gwyliau hanner tymor. Llongyfarchiadau mawr i bawb o ardal Y Tincer gafodd llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd ym Margam – welais i sawl wyneb cyfarwydd ar S4C! Diolch i bob un ohonoch chi fu'n lliwio llun Mr Urdd ar ei ffordd i'r pafiliwn. Oedd e'n cystadlu, tybed? Dyma chi: Elsi Wynn, Capel Bangor; Betsan Elena Jones, Llandre; Myfi, Cwmrheidol ac Alys, Penrhiw, Bow Street. Roedd eich lluniau'n wych.

Llongyfarchiadau mawr i ti, Betsan – dy enw di ddaeth o het Mr Urdd yn gyntaf!



Betsan

Mae 26 Gorffennaf – 3 Awst yn Wythnos Genedlaethol Gwylio Morfilod a Dolffiniaid. Mae'r Sea Watch Foundation am i ni roi gwybod iddyn nhw pan welwn ni ddolffin neu forfil yn y môr. Rhaid sbio'n ofalus iawn – yn aml rhyw damaid o gynffon neu drwyn sydd i'w weld rhwng y tonnau! Edrychwch ar y we am fwy o fanylion: www.seawatchfoundation.org.uk

Cyn hynny, mae twrnament pêl-droed Bow Street, ac ar ddechrau Gorffennaf, mae'n wythnos Eisteddfod Llangollen. Rhaid cofio am Sioe Llanelwedd hefyd. Yna ar ddechrau Awst daw wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. Mae digon o bethau i'w gwneud! Gobeithio y byddwch i gyd yn mwynhau eich gwyliau haf pan ddaw'r rheiny ymhen y mis.



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed

Y mis hwn, lliwiwch y llun yn dangos lle hoffwn i gael gwyliau – byddai aros yn y goleudy yn hwyl! Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP (anwenmai@hotmail.co.uk) erbyn 8 Medi. Mwynhewch y gwyliau!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

*Rhif 480 | Mehefin 2025*